Monitro’r economi
Bwletin ymchwil

Uned Ymchwil a Gwybodaeth Corfforaethol

Rhifyn 28
Mawrth 2019

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Conwy - Sir flaengar sy’n creu cyfleoedd

Conwy - a progressive County creating opportunity

Cysylltwch â ni

Os oes gennych unrhyw awgrymiadau sut gallwn wella'r bwletin hwn, neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ni.

Uned Ymchwil a Gwybodaeth Corfforaethol
Bodlondeb,
Conwy, LL32 8DU.
E-bost: uned.ymchwil@conwy.gov.uk

Ffôn: 01492 575291

Diweddaraf nesaf – Gorffennaf 2019

Monitro'r economi ym Mwrdeistref Sirol Conwy – bwletin ymchwil chwarterol (Mawrth 2019)

Cynnwys

Cyflwyniad 2

Penawdau 2

Rhan 1: Yr economi – trosolwg 5
Cynnyrch mewnwladol crynswth 5
Cyfraddau llog a chwyddiant 6
Monitro tueddiadau'r dyfodol 8

Rhan 2: Y farchnad llafur 9
Y cyflenwad llafur 9
Y galw am gyflogaeth 10
Dysgu seiliedig ar waith 13
Cymwysterau 15
Diweithdra a bod heb waith 17
Contractau dim oriau 20

Rhan 3: Strwythur busnes 23
Strwythur busnes – busnesau ym Mwrdeistref Sirol Conwy 23
Genedigaethau a marwolaethau busnes 25

Rhan 4: Yr economi leol 28
Ceisiadau cynllunio 28
Eiddo gwag annomestig 29

Rhan 5: Gweithgarwch tai 31
Mynegai prisiau tai y DU 31
Dadansoddiad prisiau tai blynyddol 32
Fforddiadwyedd prynu cartref 34
Gweithgarwch adeiladu tai 36

Rhan 6: Budd-daliadau lles, incwm a methdaliadau 38
Hawlwyr budd-daliadau 38
Ennillion (cyflogau) 40
Incwm aelwydydd 41
Incwm aelwydydd crynswth i'w wario 41
Methdaliadau unigol 42

Atodiad 1 – crynodeb o'r data economaidd ar gyfer ardaloedd cymharol i

Atodiad 2 – crynodeb o'r data economaidd ar gyfer is-ardaloedd strategol v

Atodiad 3.1 – ffigyrau hawlwyr diweithdra chwarterol ar gyfer wardiau (rhanbarthau etholiadol); yn ôl cyfraddau vii

Atodiad 3.2 – ffigyrau hawlwyr diweithdra blynyddol, efo cyfraddau, ar gyfer wardiau (rhanbarthau etholiadol); yn nhrefn yr wyddor viii

Cyflwyniad

Dyma'r bwletin diweddaraf mewn cyfres a fydd yn cael ei gyhoeddi gan yr Uned Ymchwil a Gwybodaeth Corfforaethol. Mae'r bwletin yn ceisio edrych ar y prif ddangosyddion economaidd ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy, gan gyflwyno'r data diweddaraf, y cyd-destun hanesyddol a chynnig sylwadau ar yr hyn mae'r data yn ei ddangos. Mae'n diweddaru'r ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiwyd ym monitor Gorffennaf 2018. Bydd rhagor o ddata yn cael ei ychwanegu at y bwletin fel y bydd ar gael.

Mae atodiadau'n dangos diweithdra ar lefel wardiau (rhanbarthau etholiadol) ac yn darparu crynodeb o wybodaeth economaidd ar gyfer is-ardaloedd strategol Bwrdeistref Sirol Conwy a'r isranbarthau Gogledd Cymru ar gael ar ddiwedd y monitor hwn.

Penawdau

- Yn y chwarter 4 (Hyd-Rhag) 2018, tyfodd economi'r Deyrnas Unedig o 0.2%. Mae'n parhau ar i fyny ers 2013. Fodd bynnag, mae CMC y pen wedi adfer yn llawer arafach o'r cwymp a welwyd yn ystod y dirwasgiad, gan fod y boblogaeth wedi tyfu'n gyflymach na CMC. Y sector gwasanaeth sydd wedi tyfu gyflymaf, ond nid yw'r allbwn cynhyrchu wedi adfer yn llwyr a roedd ar ddim ond 93.2% o lefel Ch1 2008 yn y chwarter diwethaf..
- Mae yna bryderon cyfredol ynghylch y posibilrwydd o ddirywiad economaidd cenedlaethol a byd-eang yn y tymor canolig (World economic outlook update, International Monetary Fund).
- Roedd 50,900 o bobl mewn cyflogaeth yn y chwarter diwethaf a gofnodwyd, sef cynnydd o 1,500 ers y un cyfnod y llynedd.
- Mae Arolwg y Gofrestr Fusnesau a Chyflogaeth ar gyfer 2017 yn nodi bod nifer swyddi PAYE yn BS Conwy yn 47,000. Mae hyn yn ostyngiad o tua -1,500 o swyddi ers y flwyddyn flaenorol, ac mae'n lefel llawer uwch o dwf na'r hyn a welwyd dros y chwe neu saith mlynedd diwethaf. Rhwng 2009 – dechrau'r dirywiad economaidd diwethaf / gostyngiad yn nifer y swyddi – a 2017, y cynnydd llawn mewn swyddi yn BS Conwy oedd 4,500 neu 10.6%.
- Bu'r colledion uchaf ers 2009 yn y sectorau mân-werthu ac addysg (-500 o swyddi yr un), cyfanwerthu (-350), a'r sector amaethyddiaeth (-250). Bu'r twf mwyaf yn y sector gweinyddiaeth gyhoeddus (tua +2,250 o swyddi).
- Mae lefel gweithio rhan-amser yn uchel yn BS Conwy – 35% o weithwyr yn gweithio rhan amser o'i gymharu â 31% ym Mhrydain Fawr.
- Mae'r sylfaen gynhyrchu wedi dirywio'n sylweddol dros oddeutu'r 20 mlynedd diwethaf i tua 3.5% o swyddi erbyn 2017, ac mae gogwydd mawr tuag at y diwydiannau gwasanaethau (yn enwedig yn y sector cyhoeddus) a thwristiaeth. Mae cyflogaeth yn y sectorau sgiliau uchel, cyflog uchel ar gyfer gwybodaeth a chyfathrebu, cyllid ac yswiriant, proffesiynol, gwyddonol a thechnegol, a gweinyddu busnes a gwasanaethau cefnogi yn eithaf isel, gan gyfrif ar gyfer 13% o'r holl gyflogaeth o gymharu â 25% ar draws Prydain ar y cyfan.
- Mae adroddiad STEAM 2017 yn amcangyfrif bod tua 12,300 o swyddi i gyd yn cael eu darparu gan y diwydiant twristiaeth, sydd ymhell dros chwarter o'r holl

gyflogaeth ym Mwrdeistref Sirol Conwy. Mae twristiaeth yn dod â thua £888 miliwn bob blwyddyn i'r economi leol.

- Mae mwy o bobl yn teithio allan o Gonwy i weithio nag sydd yna yn teithio i mewn i'r Fwrdeistref Sirol – llif allanol net o tua 5,000 o deithwyr. Mae'r rhan fwyaf o'r gweithwyr allanol hyn yn teithio i ardaloedd awdurdodau cyfagos (i Sir Ddinbych yn benodol), er amcangyfrifir bod tua 2,800 o bobl yn teithio i Loegr i weithio.
- Mae gwell darpariaeth o brentisiaethau ym Mwrdeistref Sirol Conwy na'r cyfartaleddau cenedlaethol. Mae gyfran uchel iawn o raglenni yn y sectorau iechyd a gwasanaethau cyhoeddus a lletygarwch. Mae'r sectorau rheoli a phroffesiynol, adeiladu a pheirianneg wedi'u tangynrychioli o ran rhaglenni dysgu yn y gwaith.
- Roedd gan 39.4% o'r boblogaeth oedran gweithio gymwysterau lefel gradd neu uwch yn 2016. Mae gennym lai o bobl heb unrhyw gymwysterau / lefelau isel iawn o gymwysterau, a mwy o bobl â chymwysterau lefel gradd neu uwch na chyfartaledd Cymru.
- Roedd canran niferoedd hawlwyr diweithdra Chwefror 2018 yn 3.1%, sydd yn llawer uwch na'r ffigurau rydym wedi'u gweld dros y pedair blynedd diwethaf, ac mae'n cyd-fynd â'r patrwm cenedlaethol lle mae cyfraddau hawlydd wedi cynyddu mis ar ôl mis ers yr hydref diwethaf. Mae'r ffigwr cyffredinol ar hyn yn llawer uwch i rai Cymru a'r DU ei chyfanrwydd.
- Roedd cyfanswm o 5,000 o bobl naill ai yn ddi-waith neu'n economaidd anweithgar ac eisiau swydd yn fis Rhagfyr 2017, ond dangosodd system dod o hyd i swydd' yr Adran Gwaith a Phensiynau mai dim ond 230 o swyddi oedd ar gael ym Mwrdeistref Sirol Conwy, a dim ond 790 o swyddi oedd ar gael yn awdurdodau cyfagos Gwynedd a Sir Ddinbych.
- Ar draws y DU, y nifer o bobl a gyflogwyd ar 'gontractau dim oriau' yn eu prif swydd, rhwng Hydref a Rhagfyr 2018, oedd 844,000, gan gynrychioli 2.6% o'r holl bobl mewn gwaith. Nid oes data ynghylch contractau dim oriau ar gael ar lefel leol.
- Mae'r cyfran uchel o swyddi "oriau sero" yn y gwasanaethau llety a bwyd i'w nodi ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy gan fod y sectorau hyn yn darparu cyfran cymharol uchel o swyddi yn yr ardal (13.9% ym Mwrdeistref Sirol Conwy, o'i gymharu â 7.4% ledled y DU).
- Yn 2018 roedd amcangyfrif o 4,410 mentrau busnes gyda'u ganolfan weithredol ym Mwrdeistref Sirol Conwy. Mae cyfran y busnesau sydd o fewn y sector amaethyddol (15.8%) yn arbennig o uchel (PF = dim ond 5%). Mae'r sector gwasanaethau llety a bwyd hefyd yn cyfrif am gyfran uchel o fusnesau (12.4%) o'i gymharu â'r tueddiadau cenedlaethol, o ganlyniad i bwysigrwydd y diwydiant twristiaeth yn yr ardal. Mae tangynrychiolaeth o'r sectorau sgiliau uchel (proffesiynol, gwyddonol a thechnegol; gwybodaeth a chyfathrebu) ym Mwrdeistref Sirol Conwy o'i gymharu â Phrydain yn ei chyfanrwydd.
- Mae busnesau sydd â'u prif ganolfan ym Mwrdeistref Sirol Conwy yn tueddu i fod yn llai na busnesau Cymru neu Brydain Fawr yn eu cyfanrwydd o ran maint y gweithlu a lefelau trosiant blynyddol.
- Cafodd 8.7 % o eiddo annomestig ym Mwrdeistref Sirol Conwy eu cofrestru yn wag ar ddiwedd mis Rhagfyr 2018. Mae hyn oddeutu 485 i gyd. Mae nifer yr eiddo gwag wedi syrthio ers y chwarter diwethaf.

- Daeth 38 eiddo yn wag yn y tri mis hyd at ddiwedd Rhagfyr 2018 – yr un nifer â'r chwarter blaenorol. Mae eiddo sydd wedi bod yn wag ers dros flwyddyn cymaint ag 6.3% yr holl eiddo annomestig yn y Fwrdeistref Sirol.
- Er gwaethaf pris cyfartalog tŷ (cymedr) ym Mwrdeistref Sirol Conwy yn codi o 3.1% yn y flwyddyn ddiwethaf, mae prisiau tai ym Mwrdeistref Sirol Conwy ar hyn o bryd yn 132.6% yn unig o'r lefel yr oeddent 10 mlynedd yn ôl (Y DU ar gyfartaledd = 145.1%).
- Mae pris cyfartalog tŷ ym Mwrdeistref Sirol Conwy ar hyn o bryd 6.0 gwaith incwm cyfartalog aelwydydd a 10.3 gwaith incwm aelwydydd y chwartel isaf. Byddai mwyafrif y cyflenwyr morgais yn dymuno benthyg gyda chymhareb incwm o oddeutu 3.5 neu 4.
- Ar gyfer pob blwyddyn ers Ebrill 2007 (y dyddiad dechrau ar gyfer y cynllun datblygu lleol presennol) mae'r ddarpariaeth o anheddau newydd wedi gostwng yn is na'r ffigur flynyddol sydd ei hangen i gyrraedd y gofyniad a nodwyd o 6,800 o anheddau ychwanegol erbyn 2022. Yn y 11 mlynedd i Ebrill 2018 dim ond 2,860 o anheddau ychwanegol sydd wedi'u darparu - os byddai'r gofyniad hwn yn cael ei rannu'n gyfartal ar draws y cyfnod hwnnw, dylai'r ffigur hynny fod yn nes at 4,990. Mae hynny'n ddiffyg o tua -2,130 neu -43% yn is na'r targed.
- Ym mis Awst 2018 roedd cyfanswm o 14,275 o hawlwyr budd-daliadau oedran gwaith Roedd cynnydd o gymharu â'r chwarter blaenorol (Mai 2018) o oddeutu 185 o hawlwyr. Ers y flwyddyn flaenorol, mae nifer cyffredinol hawlwyr budd-daliadau o oedran gweithio wedi cynyddu o 540. Mae gan BS Conwy nifer uchel o hawlwyr budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag anabledd a / neu afiechyd, i'w gymharu â chyfartaledd PF.
- Mae ein lefelau cyflogau ar gyfer swyddi ym Mwrdeistref Sirol Conwy yn sylweddol is na'r lefel Brydeinig drwyddi draw. Canolrif cyflog gros yn 2018 (gan gynnwys goramser ac ychwanegiadau) i holl weithwyr amser llawn yng Nghonwy oedd £449. Roedd hyn yn ddim ond 79% o gyfartaledd cyflogau Prydain.
- Mae datchwyddiant cyflogau hefyd yn broblem. Yn ogystal â'r gostyngiad mewn cyflog wythnosol a'r gwahaniaeth rhwng lefelau cyflogau BS Conwy a lefelau cyflogau cenedlaethol, mae pŵer prynu cyflogau wedi crebachu yn y blynyddoedd. Mewn termau real , roedd cyflogau wythnosol ar gyfartaledd cenedlaethol ym mis Ionawr 2019 yn cyfateb i 98.7% yn unig o gyflogau wythnosol Ionawr 2009.
- O'r boblogaeth fesul pen, roedd Incwm Aelwydydd Crynswth i'w Wario (GDHI) ar gyfer BS Conwy a Sir Ddinbych yn 84.7% yn unig o gyfartaledd y Deyrnas Unedig. Rhwng 2015 a 2016, cododd cyfanswm yr arian oedd ar gael ar gyfer BS Conwy o tua £3 miliwn yn gyffredinol, ond gan fod y boblogaeth wedi cynyddu yn yr un cyfnod, roedd hyn yn lleihad o tua £29 y pen.
- Yn 2017, roedd 212 achos unigol o fethdaliad ym Mwrdeistref Sirol Conwy. Roedd hyn yn tua'r un nifer ag yn y flwyddyn flaenorol. Gwelodd 2016 y cynnydd cyntaf ers 2011. Mae'r gyfradd ansolfedd bron dairwaith yn uwch nag yr oedd 15 mlynedd yn ôl. Mae gan Fwrdeistref Sirol Conwy'r ddeuddegfed gyfradd ansolfedd uchaf yng Nghymru.

Rhan 1: Yr economi – trosolwg

Mae'r cyd-destun ar gyfer yr economi leol yn cael ei ddarparu gan ddigwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol a phenderfyniadau polisi. Er bod cymhellion allweddol newid economaidd y tu hwnt i gwmpas dylanwad busnesau lleol a darparwyr gwasanaeth mae'n rhaid i ni ystyried beth sy'n digwydd yn y darlun economaidd ehangach er mwyn cynorthwyo i ddeall beth sy'n digwydd ym Mwrdeistref Sirol Conwy, ac i gynorthwyo i lunio ein hymatebion i newidiadau, heriau a chyfleoedd.

Cynnyrch mewnwladol crynswth

Siart 1.1: cynnyrch mewnwladol crynswth (CMC) – y newid chwarterol
Ffynhonnell: national accounts GDP (ONS STATBASE)



Yn y chwarter 4 (Hyd-Tach-Rag) 2018, tyfodd economi'r Deyrnas Unedig o 0.2%. Mae'n parhau ar i fyny ers 2013. Mae CMC yn nawr yn 112.0% ei lefel yn Ch1 2008. Fodd bynnag, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol hefyd wedi nodi, yn wahanol i gyfanswm CMC, sydd bellach wedi adfer yn sylweddol, bod CMC y pen wedi adfer yn llawer arafach o'r cwymp a welwyd yn ystod y dirwasgiad, gan fod y boblogaeth wedi tyfu'n gyflymach na CMC. Yn Ch3 2018, roedd CMC y pen yn 103.5% ei lefel yn Ch1 2008 a'r Gwir Incwm Gwario Net Cenedlaethol yn 102.2% yn chwarter 4 2018 (Personal and economic well-being in the UK: February 2019, Swyddfa Ystadegau Gwladol, Chwefror 2019).

Ar y dudalen nesaf, mae Siart 1.2 yn cymharu'r gwahanol elfennau o'r economi. Mae'r sector gwasanaeth – o bell ffordd y sector mwyaf yn yr economi – wedi adfer orau o ddirwasgiad byd eang 2008 ac wedi codi'r mynegai cyffredinol i dwf ac ar hyn o bryd yn 116.4% ei lefel yn Ch1 2008. Bu'r adferiad yn y diwydiant adeiladu yn llawer arafach a thameidiog, gydag allbwn yn disgyn rhywfaint yn chwarter olaf 2018. Nid yw'r allbwn cynhyrchu wedi adfer yn llwyr a roedd ar ddim ond 93.2% o lefel Ch1 2008 yn y chwarter diwethaf.

Siart 1.2: elfennau CMC o'u cymharu â lefelau 2008
Ffynhonnell: output components of gross domestic product, constant prices, seasonally adjusted, ONS



Y mesur lleol diweddaraf sydd gennym am dwf economaidd CMC (Gwerth Crynswth Ychwanegol) yw 2017, ac nid yw'n addas ar gyfer monitro perfformiad yr economi lleol ar sail amserol. Ond, mae'n werth nodi bod y Gwerth Crynswth Ychwanegol fesul y pen ar gyfer rhanbarth BS Conwy yn 2017 (£16,053 – yn 81% yn unig o ffigwr Cymru, a 59% o ffigwr y Dernas Unedig.

Cyfraddau llog a chwyddiant

Tabl 1.1: cyfraddau llog a chwyddiant blynyddol
Ffynonellau: Cyfraddau llog diwedd y mis Banc Lloegr; mynegai prisiau adwerthu (RPI) a'r mynegai prisiau defnyddwyr (CPI), (ONS STATBASE)

	Presennol (Chwe 2019)	Chwarter diwethaf (Tach 2018)	Blwyddyn diwethaf (Chwe 2018)
Cyfradd llog Banc Lloegr	0.75%	0.75%	0.50%
Chwyddiant CPIH: gan gynnwys tai	1.8%	2.2%	2.5%
Chwyddiant RPI: holl nwyddau	2.5%	3.2%	3.6%
Chwyddiant CPI: ac eithrio costau tai	1.9%	2.3%	2.7%

Mae cyfradd llog Banc Lloegr yn 0.75% ar hyn o bryd (Mawrth 2019). Mae cyfraddau wedi bod yn is nag 1% am ddegawd. Ar ôl dros saith mlynedd o'r gyfradd llog isel flaenorol o 0.5%, mae Banc Lloegr wedi gostwng y gyfradd hyd yn oed ymhellach i 0.25% ym mis Awst 2016, yn dilyn effaith ddirywiol gwerth y bunt ar ôl y bleidlais i adael yr Undeb Ewropeaidd ym mis Gorffennaf 2016. Codwyd y gyfradd yn ôl i 0.5% ym mis Tachwedd 2017 ac i 0.75% yn Awst 2018 i helpu i reoli arwyddion twf yn yr economi, ac wedi aros ar y lefel honno ers hynny. Dywedodd Pwyllgor Polisi Ariannol y Banc y byddai'r amcanestyniad economaidd yn parhau i ddibynnu'n "sylweddol ar natur ac amseriad gadael yr Uned Ewropeaidd" ac y gallai newidiadau mewn cyfraddau llog yn y dyfodol fod yn y naill gyfeiriad.[1] Disgwylir cynnal yr adolygiad cyfraddau llog nesaf ym mis Mai 2019.

Er bod y gyfradd llog isel wedi cael rhywfaint o effaith cadarnhaol ar chwyddiant, mae hefyd wedi gostwng adenillon ar fuddsoddi a chynilon.

Siart 1.3: cyfraddau llog blynyddol a chwyddiant

Ffynonellau: cyfraddau llog diwedd y mis Banc Lloegr; mynegai prisiau adwerthu (RPI) a'r mynegai prisiau prynwyr (CPI), (ONS STATBASE)



Mae tri mesur allweddol o chwyddiant ar hyn o bryd sy'n cael eu defnyddio a'u dyfynnu'n rheolaidd yn y cyfryngau.

Mae mesur chwyddiant newydd o'r enw CPIH (Mynegai Prisiau Defnyddwyr gan gynnwys costau Tai perchnogion breswylwyr) wedi cael ei fabwysiadu ym mis Ebrill 2017. Hwn yw'r mesur isaf chwyddiant fel rheol, ac fe'i defnyddir i fynegrifo budd-daliadau, credyd treth a phensiynau sector cyhoeddus. Cyfradd chwyddiant 12-mis CPIH oedd 1.8% ym mis Chwefror 2019. Mae'r gyfradd wedi syrthio o uchafbwynt diweddar o 2.8% yn ystod hydref 2017. Arweiniodd prisiau cynyddol ar gyfer bwyd, alcohol a thybaco ac ar draws ystod o nwyddau hamdden a diwylliannol at

[1] https://www.bankofengland.co.uk/monetary-policy-summary-and-minutes/2019/march-2019

gyfraniadau mwyaf tuag i fyny i newid yn y gyfradd rhwng Ionawr a Chwefror 2019. Daeth y mwyaf, gan osod cyfraniad tuag i lawr o ddillad ac esgidiau.

Mae'r mesur uwch, Mynegai Prisiau Adwerthol (RPI) yn cael ei ddefnyddio fel rheol i fynegrifo eitemau yr ydym yn talu amdanynt, gan gynnwys eitemau rheoledig fel pris tocynnau trên. Roedd mesur chwyddiant RPI – sy'n cynnwys rhai costau tai ond yn nad yw'n cynnwys gwario gan bobl ar frig ac ar waelod y dosbarthiadau incwm yn ei gyfrifiadau – yn 2.5 % ym mis Chwefror 2019.

Yn hanesyddol roedd Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn fesur dewisol y llywodraeth ar gyfer mynegrifo budd-daliadau a phensiynau a chaiff sylw yn y cyfryngau yn dal i fod weithiau gan y cyfryngau. Mae hyn yn debyg i CPIH, ond nid yw'n cynnwys lefel newidiol costau tai ar gyfer perchnogion tai, megis llog morgeisi ac yswiriant adeiladau. Cyfradd chwyddiant 12-mis CPIH oedd 1.9% ym mis Chwefror 2019, i lawr o 2.3% ym mis Tachwedd.

Monitro tueddiadau'r dyfodol

Er mwyn cynorthwyo i dracio'r newidiadau sy'n dod i'r amlwg a'r newidiadau posibl i economi'r DU a'r gymdeithas, mae ONS yn darparu crynhoad o allbynnau ystadegol allweddol. Mae hyn yn darparu'r darlun presennol ar gyfer pob cyhoeddiad o'r data diweddaraf sydd ar gael, ynghyd â darparu cyd-destun economaidd bras i arwain dehongliad yr ystadegau hyn y dyfodol. Mae ar gael ar-lein ar http://visual.ons.gov.uk/tracking-the-impact-of-the-eu-referendum/ (Saesneg yn unig).

Mae'r adolygiad economaidd chwarterol llawn gan ONS ar gael ar https://www.ons.gov.uk/search?q=economic+review (Saesneg yn unig).

Mae pleidlais refferendwm yr UE ar 23 Mehefin 2016 wedi cael effaith uniongyrchol ar y farchnad stoc ac arian cyfred wrth i'r disgwyliadau o ran sefyllfa fasnach y DU a chysylltiadau economaidd ehangach gyda'r UE a gweddill y byd newid yn sylweddol. Mae ONS yn darparu ystadegau allweddol am yr hyn sydd wedi newid: https://www.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/articles/whatschangedsincethebrexitvote/2017-06-23

Mae yna hefyd bryderon cyfredol ynghylch y posibilrwydd o ddirywiad economaidd cenedlaethol a byd-eang yn y tymor canolig, er gwaethaf arwyddion o adferiad parhaus o gwymp economaidd 2008. Mae'r materion sydd yn achosi pryder yn gyffredinol yr un fath â'r rhai a nodwyd yn rhifyn diwethaf y bwletin hwn; cynhyrchiant isel y DU o'i gymharu â chystadleuwyr, ansicrwydd ynghylch safbwynt economaidd diffynnaeth rhai economïau gorllewinol (gan gynnwys UDA), arafu rhagamcanol mewn twf o economïau sy'n datblygu, megis Tsieina, risg sector ariannol cynyddol, ac mae defnyddwyr y DU wedi rhoi gwybod bod eu sefyllfa ariannol eu hunain yn gwaethygu[2].

[2] World economic outlook update, International Monetary Fund, January 2019; Personal and economic well-being in the UK, Office for National Statistics, February 2019

Rhan 2: Y farchnad llafur

Cyflogaeth dda yw'r un mwyaf cyffredin, ac yn aml dyma'r dull mwyaf effeithiol o ddarparu'r cyllid sydd ei angen ar deulu er mwyn gwella sawl maes o les3. Nid nifer y swyddi sydd ar gael yw'r unig elfen, ond y mathau o gyfleoedd cyflogaeth y maent yn eu cynnig, a pha mor dda ydynt o ran cyfateb â'r newidiadau yn yr economi fyd-eang ynghyd â'r blaenoriaethau lleol. Mae cyflogaeth bendant gyda chyflog da yn effeithio ar les economaidd unigolion a chymunedau, ond gall gynorthwyo gyda lles meddyliol hefyd gan ei fod yn meithrin ymdeimlad o bwrpas ac ymdeimlad o berthyn o fewn cymdeithas.

Y cyflenwad llafur

Mae 76.6% o bobl 16-64 mlwydd oed ym Mwrdeistref Sirol Conwy yn economaidd weithgar (yn y gwaith neu ar gael i weithio) – yn uwch na gyfradd Cymru, ond tipyn yn is na ffigur y DU. Yn gyffredinol mae cyfraddau gweithgarwch economaidd ar i fyny, ond gwelwyd tro i lawr mewn rhai chwarter y llynedd. Mae'n rhy fuan i ddweud os yw hyn yn newid parhaol mewn tuedd.

Siart 2.1: cyfanswm preswylwyr oedran gweithio sy'n economaidd weithgar (oedran 16-64), Bwrdeistref Sirol Conwy

Ffynhonnell: ONS annual population survey, (NOMIS)



Mae'r data a ddefnyddir yn y siart hwn yn dilyn diffiniad y Sefydliad Llafur Rhyngwladol (ILO) o ddiweithdra. Nid yw'r un fath â'r mesurydd ar gyfer nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau o ddiweithdra a gyflwynir yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.

[3] A yw gwaith yn dda ar gyfer eich Iechyd a'ch Lles, Yr Adran Gwaith a Phensiynau 2006

Ond, mae'r amcangyfrifon poblogaeth yn nodi canran y boblogaeth ym Mwrdeistref Sirol Conwy sydd o oedran 16-64 fel 56.6% yn unig, o'i gymharu â 61.5% yng Nghymru a 62.9% ym Mhrydain drwyddi draw. Mae hyn yn arwain at gymarebau dibyniaeth uchel - hynny yw, nifer y plant/unigolyn hŷn ar gyfer pob person oedran gweithio. Mae cyfran uchel o ddibynyddion yn y boblogaeth yn gallu rhoi straen ar yr economi ac ar strwythur cymdeithasol y gymuned.

Er bod cyfraddau gweithgarwch economaidd ar duedd ar i fyny, mae cyfanswm nifer y bobl sy'n economaidd weithgar yn fwy cyfnewidiol. Mae hyn yn cael ei effeithio gan faint y boblogaeth oedran gweithio, ac fe allai ddechrau gostwng o bosibl yn y dyfodol agos o ganlyniad i garfan fawr y 'baby boom' yn symud allan o'r gweithlu wrth iddynt gyrraedd oedran ymddeol.

Roedd 50,900 o bobl mewn cyflogaeth yn y chwarter diwethaf a gofnodwyd, sef cynnydd o 1,500 ers yr yn cyfnod y llynedd. Ar lefel y DU gostyngodd nifer y bobl a oedd mewn cyflogaeth neu fel arall yn economaidd weithgar rhwng 2008 a 2011 oherwydd y dirwasgiad economaidd ond mae wedi cynyddu ers hynny i'r lefel uchaf erioed. Ynghyd â dychwelyd i dwf yn yr economi leol, mae'r rhesymau eraill dros y cynnydd mewn niferoedd mewn cyflogaeth yn cynnwys newidiadau i oedran pensiwn y wladwriaeth (sy'n golygu bod pobl yn aros yn y gweithlu'n hirach) a diwygiad i ddiffiniadau'r hyn sy'n cyfrif fel gweithgarwch economaidd (er enghraifft interniaethau a gwaith di-dâl/gwirfoddol arall).

Amcangyfrifir bod nifer y bobl yn y gweithlu sy'n hunangyflogedig tua 7,800 o bobl – 10.9% o'r gweithlu. Mae hyn yn cymharu â chyfradd o tua 9.5% ledled Cymru a 10.6% ar gyfer Prydain Fawr trwyddi draw.

Tabl 2.1: cyflenwad llafur – poblogaeth oedran gweithio a gweithgarwch economaidd (preswyl)

Ffynonellau: ONS mid year population estimates; ONS annual population survey, (NOMIS)

	BS Conwy		Cymru	Prydain Fawr
	Nifer	%	%	%
Pawb - 16-64 oed (canol 2017)	66,200	56.6	61.5	62.9
Gweithgarwch economaidd (Hyd 2017-Med 2018)				
Economaidd weithredol	52,600	76.6	76.2	78.5
Mewn gwaith	50,900	74.1	72.6	75.1
Cyflogeion	42,500	63.1	62.5	64.3
Hunangyflogedig	7,800	10.5	9.5	10.6
Economaidd anweithredol	15,200	23.4	23.8	21.5

Y galw am gyflogaeth

Mae Arolwg y Gofrestr Fusnesau a Chyflogaeth ar gyfer 2017 yn nodi bod nifer swyddi PAYE yn BS Conwy yn 47,000. Mae hyn yn ostyngiad o tua -1,500 o swyddi ers y flwyddyn flaenorol, ac mae'n lefel llawer uwch o dwf na'r hyn a welwyd dros y chwe neu saith mlynedd diwethaf. Rhwng 2009 – dechrau'r dirywiad economaidd

diwethaf / gostyngiad yn nifer y swyddi – a 2017, y cynnydd llawn mewn swyddi yn BS Conwy oedd 4,500 neu 10.6%.

Siart 2.2: newid mewn sectorau cyflogaeth, 2009-2017
Ffynonellau: ONS annual business inquiry & business register and employment survey, (NOMIS)



Fodd bynnag, nid oedd y newid wedi'i ddosbarthu'n gyfartal ar draws sectorau cyflogaeth. Bu gostyngiad yn nifer y swyddi mewn rhai sectorau – bu'r colledion uchaf ers 2009 yn y sectorau mân-werthu ac addysg (-500 o swyddi yr un), cyfanwerthu (-350), a'r sector amaethyddiaeth (-250). Bu'r twf mwyaf yn y sector gweinyddiaeth gyhoeddus (tua +2,250 o swyddi). Roedd y twf canrannol mwyaf yn y sector gweinyddiaeth gyhoeddus hefyd – 58% ers 2009. Sectorau twf pwysig eraill ers 2009 yw'r celfyddydau, adloniant a hamdden (+750), gweinyddiaeth busnes (+650), a'r sectorau iechyd, llety a gwasanaethau bwyd, a phroffesiynol / gwyddonol / technegol (+500 yr un).

Mae lefel gweithio rhan-amser yn uchel yn BS Conwy – 35% o weithwyr yn gweithio rhan amser o'i gymharu â 31% ym Mhrydain Fawr. Mae lefelau gweithio rhan-amser yn uwch ar gyfer menywod.

Mae strwythur cyflogaeth yng Nghonwy yn wahanol i weddill Prydain drwyddi draw. Mae'r sylfaen gynhyrchu wedi dirywio'n sylweddol dros oddeutu'r 20 mlynedd diwethaf i tua 3.5% o swyddi erbyn 2017, ac mae gogwydd mawr tuag at y diwydiannau gwasanaethau (yn enwedig yn y sector cyhoeddus) a thwristiaeth.

Ym Mwrdeistref Sirol Conwy mae cyflogaeth yn y sectorau sgiliau uchel, cyflog uchel ar gyfer gwybodaeth a chyfathrebu, cyllid ac yswiriant, proffesiynol, gwyddonol a thechnegol, a gweinyddu busnes a gwasanaethau cefnogi yn eithaf isel, gan gyfrif ar gyfer 13% o'r holl gyflogaeth o gymharu â 25% ar draws Prydain ar y cyfan.

Mae cyfran cyflogaeth yn y sectorau adwerthu, llety a gwasanaethau bwyd, celfyddydau, adloniant a hamdden sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn uchel –

cyfanswm o oddeutu 32% o'r holl swyddi o gymharu â 21% yn genedlaethol. Y sectorau hyn yw'r rhai sydd fwyaf tebygol o gynnwys cyflog isel, cyflogaeth ran-amser neu dymhorol.

Mae adroddiad STEAM 2017 yn amcangyfrif bod tua 9,950 o swyddi yn cael eu darparu'n uniongyrchol gan y diwydiant twristiaeth ac bod 2,350 o swyddi pellach yn cael eu cefnogi'n anuniongyrchol gan dwristiaeth – tua 12,300 o swyddi i gyd, sydd ymhell dros chwarter o'r holl gyflogaeth ym Mwrdeistref Sirol Conwy. Mae twristiaeth yn dod â tua £888 miliwn bob blwyddyn i'r economi leoll.

Tabl 2.2: y galw am lafur – cyflogaeth**, 2017 (yn y gwaithle)

Ffynhonnell: ONS business register and employment survey, (NOMIS)

	BS Conwy		Cymru	Prydain Fawr
	Nifer	%	%	%
Swyddi PAYE	47,000			
Cyfanswm cyflogwyr	43,000	91.5	93.9	96.6
Amser llawn	27,000	57.4	60.9	65.2
Rhan amser	16,000	34.0	33.0	31.4
Perchnogion sy'n gweithio	4,000	8.5	6.1	3.4
				Cyflogaeth fesul diwydiant
Amaethyddiaeth*	2,500	5.3	4.2	1.6
Cynhyrchiad	1,700	3.5	12.1	9.2
Adeiladu	2,400	5.1	4.5	4.9
Gwasanaethau	40,200	86.0	79.2	84.3
Cyfanwerthu a manwerthu	6,200	13.2	12.0	13.3
Llety a gwasanaethau bwyd	6,500	13.9	7.6	7.4
Gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd	15,500	33.2	31.0	25.7
Gwasanaethau eraill	12,100	25.8	28.6	37.8

* Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys amaethyddiaeth fferm (SIC isddosbarth 01000)
** Mae ffigurau cyflogaeth yn cynnwys cyflogwyr a pherchnogion sy'n gweithio

Mae mwy o bobl yn teithio allan o Gonwy i weithio nag sydd yna yn teithio i mewn i'r Fwrdeistref Sirol – llif allanol net o tua 5,000 o deithwyr. Yn gyfan gwbl, mae tua 26% o boblogaeth gweithio Conwy yn teithio allan o'r ardal i weithio. Mae'r rhan fwyaf o'r gweithwyr allanol hyn yn teithio i ardaloedd awdurdodau cyfagos (i Sir Ddinbych yn benodol), er amcangyfrifir bod tua 2,800 o bobl yn teithio i Loegr i weithio. Oddeutu 7,800 o bobl naill ai'n byw ym Mwrdeistref Sirol Conwy ac yn teithio i weithio yn Sir Ddinbych neu i'r gwrthwyneb, sef oddeutu 8.4% o'r preswylwyr yn yr ardal sy'n gweithio. Mae hyn yn tynnu sylw at yr angen ar gyfer cynllunio economaidd cydlynol ar draws y ddwy sir.

Tabl 2.3: cymudo, 2017
Ffynonellau: ONS annual population survey (StatsCymru)

Cymudo	
Nifer y trigolion sy'n gweithio	50,200
Nifer sy'n cymudo allan o BS Conwy	13,000
Nifer y bobl sy'n gweithio yn BS Conwy	45,200
Nifer y bobl sy'n cymudo i mewn i BS Conwy	8,000
All-lif net	5,000
Canran y trigolion sy'n gweithio yng Nghymru	94.4%
Canran y trigolion sy'n gweithio yn BS Conwy	74.1%

Dysgu seiliedig ar waith

Mae ystod o gymwysterau academaidd a chymwysterau sy'n gysylltiedig â gwaith wedi'u cynnwys yn yr ystod o sgiliau ar gyfer cyflogaeth. Nid yw'r llwybr ar gyfer addysg uwch a graddau prifysgol yn addas ar gyfer pawb sy'n gadael ysgol neu ddysgwyr sy'n oedolion, ac mae prentisiaethau a chyfleoedd dysgu yn y gwaith yn ffurfio rhan fawr o'r sylfaen sgiliau lleol. Ynghyd â graddedigion addysgedig, bydd economi gymysg wydn angen technegwyr, gweinyddwyr, gweithredwyr manwerthu medrus ac ati. Mae gan ddysgu wrth weithio, cynlluniau prentisiaeth ac addysg uwch ffurfiol rôl sylweddol o ran darparu sgiliau o fewn y farchnad gyflogaeth.

Mae cysylltiad sicr rhwng sgiliau a chyfleoedd cyflogaeth, ar gyfer yr unigolyn a'r gweithlu ehangach. Mae gwella sgiliau yn gwella gallu'r rhai sy'n ddi-waith i ganfod gwaith. Ar yr un pryd mae gwella sgiliau yn cynorthwyo'r rhai mewn swyddi â chyflog is i symud ymlaen drwy'r farchnad lafur. Wrth i sylfaen sgiliau'r gweithlu gynyddu, mae'r ardal yn fwy deniadol i fuddsoddwyr posibl sy'n dymuno cyflwyno busnesau newydd[4]

Mae Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi data ar ddysgu yn y gwaith (WBL), sy'n rhoi manylion am hyfforddiant ôl-16 trwy raglenni cydnabyddedig. Yn 2016/17 roedd 2,170 o brentisiaethau ym Mwrdeistref Sirol Conwy, rhan o gyfanswm llawn o 2,390 o raglenni dysgu yn y gwaith.

Er y bu gostyngiad yn nifer y prentisiaethau a chyrsiau eraill ar gyfer pobl ifanc 16-24 oed o gymharu â'r llynedd, mae'r duedd ar i fyny yn gyffredinol ar gyfer pob math o ddysgu yn seiliedig ar waith. Mae hyn yn dilyn y duedd genedlaethol.

O'i gymharu â'r gyfradd genedlaethol, mae gwell darpariaeth o brentisiaethau ym Mwrdeistref Sirol Conwy na'r cyfartaleddau cenedlaethol, yn enwedig yn y grŵp 16-24 oed (78.7 fesul 1,000 o boblogaeth yn y grŵp oedran hwnnw yn BS Conwy o'i gymharu â 62.9 ledled Cymru). Ers 2012/13 roedd hefyd wedi ei ddarparu'n well, o edrych ar yr holl raglenni WBL (nid prentisiaethau'n unig).

[4] The Role of Skills from Worklessness to Sustainable Employment with Progression – UK Commission for Employment and Skills, Medi 2011

Siart 2.3: raglenni dysgu seiliedig ar waith – cyfradd fesul 1,000 o'r boblogaeth

Ffynhonnell: dadansoddiad o'r rhwydwaith dysgu, Llywodraeth Cymru (StatsCymru)



* Mae'r gyfradd fesul 1,000 yn y grŵp oedran hwnnw

Dim ond 36% o brentisiaethau a 42% o'r holl raglenni Dysgu yn y Gwaith ym Mwrdeistref Sirol Conwy a gyflawnwyd gan bobl o dan 25 oed, o'i gymharu â 39% o

brentisiaethau a 48% o'r holl raglenni ar draws Cymru. Gallai hyn fod yn adlewyrchu strwythur oedran hŷn y Fwrdeistref Sirol.

Mae mwy o fenyw nac o ddynion yn cyflawni dysgu yn y gwaith yn BS Conwy. Mae 65% o brentisiaethau a 63% o'r holl hyfforddiant yn cael ei wneud gan fenywod. Mae ffigurau'n dipyn bach mwy cyfartal dros Gymru gyfan – menywod yw 61% o'r holl brentisiaid a 58% o'r rhai sy'n cyflawni WBL.

Tabl 2.4: raglenni dysgu seiliedig ar waith, 2017/18

Ffynhonnell: Dadansoddiad o'r rhwydwaith dysgu, Llywodraeth Cymru (StatsWales)

	BS Conwy			Cymru	
	Nifer	Cyfradd*	% **	Cyfradd*	% **
Prentisiaethau					
Pob un 16-64 oed	2,170	32.8		29.9	
16-24 oed	785	78.7	35.9%	62.9	38.7%
25+ oed	1,390	24.7	64%	22.4	61.3%
Dynion	755	-	34.8%	-	39.4%
Menywod	1,415	-	65.2%	-	60.6%
Yr holl raglenni dysgu yn seiliedig ar waith					
Pob un 16-64 oed	2,390	36.1		35.0	
16-24 oed	965	96.7	41.8%	87.3	47.7%
25+ oed	1,390	24.7	58%	23.2	52.3%
Dynion	885	-	37.0%	-	41.5%
Menywod	1,505	-	63.0%	-	58.4%

* Mae'r gyfradd fesul 1,000 yn y grŵp oedran hwnnw
** % o'r holl brentisiaethau/rhaglenni dysgu yn seiliedig ar waith

O'i gymharu â ffigyrau Cymru gyfan, mae gan BS Conwy gyfran uchel iawn o raglenni yn y sector iechyd a gwasanaethau cyhoeddus – 42% o brentisiaethau (38% yng Nghymru) a 39% o'r holl raglenni (33% yng Nghymru). Sector arall sydd â chyfran uwch o raglenni dysgu na chyfartaledd Cymru yw lletygarwch. Mae hyn yn adlewyrchu strwythur cyflogaeth y Fwrdeistref Sirol, ac mae'r math o gyrsiau sydd ar gael mewn sefydliadau addysg bellach lleol hefyd yn dylanwadu ar hyn. Mae'r sectorau rheoli a phroffesiynol, adeiladu, a pheirianneg wedi'u tangynrychioli o ran rhaglenni dysgu yn y gwaith yn BS Conwy o'i gymharu â ffigyrau Cymru gyfan.

Cymwysterau

Mae lefelau cymwysterau ym Mwrdeistref Sirol Conwy wedi gwella'n sylweddol ers 2008. Mae cyfran y bobl oedran gweithio (18-64) heb unrhyw gymhwyster wedi gostwng am fron i wyth pwynt canran i ddim ond 5.7% yn 2017, ac mae cyfran y bobl sydd â chymwysterau ym mhob categori yn uwch na lefel 3 (o leiaf 2 Safon Uwch) wedi cynyddu. Roedd gan 39.4% o'r boblogaeth oedran gweithio gymwysterau lefel gradd neu uwch yn 2017, o'i gymharu â dim ond 26.0% yn 2008.

Siart 2.4: lefelau o gymhwyster ym Mwrdeistref Sirol Conwy

Ffynhonnel: Annual Population Survey/Annual Local Labour Force Survey (StatsWales)



Tabl 2.5: gymhwysterau uchaf sydd gan oedolion o oedran gweithio

Ffynhonnell: Annual Population Survey/Annual Local Labour Force Survey (StatsWales)

	Bwrdeistref Sirol Conwy				Cymru 2017	PF 2017
	2008	2017	Dynion 2017	Menywod 2017		
Dim cymhwyster	13.5	5.7	6.7	4.7	8.7	7.7
O dan lefel 2	16.0	12.3	13.3	11.4	12.8	12.9
NQF lefel 2	24.3	21.8	23.1	20.6	20.2	18.6
NQF lefel 3	20.6	20.7	22.6	19.0	20.9	19.9
NQF lefel 4-6	20.9	29.4	25.3	33.4	27.0	-
NQF lefel 7-8	4.7	10.0	9.0	11.0	10.4	-
NQF lefel 4 ac uwch	26.0	39.4	34.3	44.4	37.4	40.9

Diffiniadau
Mae enghreifftiau o gymwysterau uchaf ar bob lefel yn cynnwys:
Is na lefel 2: NQF lefel 1, Lefel Mynediad, Sgiliau Sylfaenol/Allweddol
Lefel 2: NQF lefel 2, 5+ TGAU graddau A*-C, 2 lefelau AS
Lefel 3: 2+ lefel A, 4+ lefel AS, NQF lefel 3, Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru
Lefelau 4-6: Gradd (er enghraifft BA, BSc), Gradd sylfaen, NQF lefel 4
Lefelau 7-8: gradd ôl-raddedig, NQF lefel 5.

O'i gymharu â chyfartaledd Cymru, mae'r boblogaeth oedran gweithio ym Mwrdeistref Sirol Conwy yn fwy cymwys. Mae gennym lai o bobl heb unrhyw

gymwysterau / lefelau isel iawn o gymwysterau, a mwy o bobl â chymwysterau lefel gradd neu uwch. Mae menywod yn gyffredinol yn fwy cymwys na dynion.

Diweithdra a bod heb waith

Daw'r ffigurau diweithdra yn y rhan yma o'r adroddiad o ystadegau o nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau bob mis sy'n cael eu llunio gan Adran Gwaith a Phensiynau (y rhai sy'n hawlio budd-daliadau Lwfans Ceisio Gwaith yn ogystal â'r rhai sy'n hawlio Credyd Cynhwysol ac mae'n rhaid iddynt chwilio am waith a bod ar gael i weithio) [5].

Tabl 2.6: niferoedd cymharol diweithdra hawlwyr chwarterol

Ffynhonnell: ONS claimant count, (NOMIS)

	BS Conwy		Cymru		Y Deyrnas Unedol	
	Nifer	Cyfradd	Nifer	Cyfradd	Nifer	Cyfradd
Chwefror 2019	2,060	3.1	52,415	2.7	1,068,630	2.6
Tachwedd 2018	1,610	2.4	45,495	2.4	945,630	2.3
Awst 2018	1,350	2.0	44,045	2.3	906,795	2.2
Mai 2018	1,395	2.1	43,200	2.2	896,425	2.2
Chwefror 2018	1,435	2.2	42,145	2.2	865,350	2.1
Chwefror 2014	2,460	3.7	67,655	3.5	1,247,095	3.0
Chwefror 2008	1,780	2.6	43,000	2.2	848,940	2.1

Mae diweithdra ym Mwrdeistref Sirol Conwy fel arfer yn dymhorol – ar ei uchaf yn ystod misoedd y gaeaf, ac ar ei uchaf un tua mis Chwefror.

Roedd canran niferoedd hawlwyr diweithdra Chwefror 2018 yn 3.1%, sydd yn llawer uwch na'r ffigurau rydym wedi'u gweld dros y pedair blynedd diwethaf, ac mae'n cyd-fynd â'r patrwm cenedlaethol lle mae cyfraddau hawlydd wedi cynyddu mis ar ôl mis ers yr hydref diwethaf. Mae'r ffigwr cyffredinol ar hyn yn llawer uwch i rai Cymru a'r DU ei chyfanrwydd, o bosibl oherwydd natur dymhorol patrymau gweithio'r sector twristaidd yn y Fwrdeistref Sirol..

[5] Nid dyma'r ffigur diweithdra sy'n dueddol o gael sylw yn y wasg, a ddaw o Arolwg Poblogaeth Blynyddol bob chwarter ac sy'n defnyddio diffiniad gwahanol o ddiweithdra. Mae newidiadau sylweddol i'w gweld ar lefel awdurdod unedol yn yr Arolwg, sydd yn arolwg sampl, ac felly nid yw'n ddigon cadarn i ddarparu mesur dibynadwy i fonitro diweithdra ar lefel leol. https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/methodologies/aguidetolabourmarketstatistics#unemployment

Siart 2.5: cyfrif diweithdra hawlwyr, Chwefror 2009-Chwefror 2019
Ffynhonnell: ONS claimant count, (NOMIS)



Tabl 2.7: ffigyrau cyfrif diweithdra hawlwyr diweddaraf Bwrdeistref Sirol Conwy (Chwefror 2019)[6]
Ffynhonnell: ONS claimant count, (NOMIS)

	Nifer	Cyfradd	% holl hawlwyr
Pawb	2,060	3.1	
Dynion	1,295	4.0	62.9
Menywod	765	2.3	37.1
Dan 25 oed	410	-	19.9
Oedran 50+	615	-	29.9

Cyfanswm y nifer o hawlwyr di-waith o dan 25 oed oedd 410 ym mis Chwefror 2019. Ar y cyfan, mae pobl ifanc o dan 25 oed yn cyfrif am tua 20% o'r holl hawlwyr di-waith.

Cododd y nifer o bobl ifanc sy'n ddi-waith yn sylweddol yn 2008 o ganlyniad i'r dirwasgiad byd-eang a pharhau yn uchel am dros bum mlynedd. Yna cafwyd cyfnod o ddiweithdra ymysg yr ieuenctid yn lleihau, wedi'u heffeithio gan effaith gwelliannau cyffredinol yn yr economi, cynyddodd cyfranogaeth mewn addysg uwch ac addysg bellach, a newidiadau i hawliau budd-dal ar gyfer y grŵp oedran hwnnw. Serch

[6] Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn gweithio ar gynhyrchu data diweithdra cadarn a fydd yn cyfuno cyfrifau Credyd Cynhwysol a'r Lwfans Ceisio Gwaith. Nid yw'r data hwn ar gael ar hyn o bryd ar gyfer dadansoddi hyd diweithdra. Mae hyn yn golygu bod ffigurau ar gyfer diweithdra tymor hir a oedd yn arfer cael eu defnyddio yn yr adroddiad hwn, wedi'u tynnu ar hyn o bryd.

hynny, mae niferoedd wedi bod yn codi ers yr hydref diwethaf a bellach maent ar eu lefel uchaf ers Chwefror 2016.

Ar ochr arall ystod oedran y gweithlu, bu cynnydd sylweddol hefyd yn nifer yr hawlwyr 50 oed â hŷn ar ôl dirywiad economaidd 2007/08. Ar gyfer y tair blynedd rhwng mis Mai 2011 a mis Mai 2014 cafwyd dros 400 o hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith a oedd yn 50 oed a hŷn yng Nghonwy trwy'r amser. Er gwaethaf y gostyngiad mewn hawlwyr yn y grŵp oedran hwn yn 2014-15 mae'r niferoedd wedi cynyddu eto a bellach maent ar eu lefel uchaf ers 1997. Gyda 615 o hawlwyr ym mis Chwefror 2018 roedd tua 400 yn fwy o hawlwyr yn y grŵp hwn o gymharu â hydref 2007, cyn dechrau'r dirwasgiad byd-eang. Efallai bo'r newidiadau diweddar i oedran pensiwn y wladwriaeth yn egluro'n rhannol pam fod nifer yr hawlwyr diweithdra 50+ oed yn parhau i fod yn uchel - mae pobl a fyddai'n cyfrif fel rhai sydd wedi 'ymddeol' ychydig flynyddoedd yn ôl yn awr yn y grŵp poblogaeth oedran gwaith. Mae'r grŵp hwn yn eithaf mawr o gymharu â grwpiau oedran eraill gan ei fod yn cynnwys carfan y to twf.

Siart 2.6: cyfrif diweithdra hawlwyr – grwpiau oedran dethol

Ffynhonnell: ONS claimant count, (NOMIS)



O'r 15,200 o bobl oed 16-64 a oedd yn segur yn economaidd yn BS Conwy, dim ond 3,100 (20.7%) oedd yn eisiau swydd sy'n isel o'i gymharu â ffigurau cenedlaethol – sy'n adlewyrchiad o bosibl o'r ffaith fod yr ardal yn gyrchfan ymddeol.

Yn y deuddeg mis at fis Medi 2018, fel cyfartaledd roedd cyfanswm o 5,000 o bobl naill ai yn ddi-waith neu'n economaidd anweithgar ac eisiau swydd ar unrhyw un adeg. Fodd bynnag, ym mis Hydref 2018 dangosodd system 'dod o hyd i swydd' yr Adran Gwaith a Phensiynau mai dim ond 230 o swyddi oedd ar gael ym Mwrdeistref Sirol Conwy, a dim ond 790 o swyddi oedd ar gael yn awdurdodau cyfagos Gwynedd a Sir Ddinbych (data wedi'i dynnu 22 Hydref 2018). Mae hyn yn cynnwys swyddi llawn a rhan amser.

Tabl 2.8: economaidd anweithgar (preswyl)
Ffynonellau: ONS mid year population estimates; ONS annual population survey, (NOMIS)

	BS Conwy		Cymru	Prydain Fawr
	Nifer	%	%	%
Gweithgarwch economaidd (Hyd 2017-Med 2018)				
Economaidd anweithredol	15,200			
% anweithredol yn eisiau swydd	3,100	20.7	22.3	21.4
% anweithredol ddim yn eisiau swydd	12,000	79.3	77.7	78.6

Mae atodiadau'n dangos diweithdra ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru, is-ardaloedd strategol a wardiau (rhanbarthau etholiadol) ar gael ar ddiwedd y monitor hwn.

Contractau dim oriau

Ers y dirywiad economaidd yn 2008-2011 bu ymwybyddiaeth gynyddol o'r defnydd o "gontractau dim oriau" fel dull o reoli cyflogaeth dros dro. Gall contractau dim oriau achosi problemau i weithwyr. Mae'n anodd cynllunio'n ariannol pan na wyddoch faint o waith y byddwch yn ei gael mewn unrhyw gyfnod penodol – a gall y ffaith bod contractau dim oriau wedi'u crynodi yn y sectorau cyflog is waethygu'r ansicrwydd ariannol hwn. Gall bod heb oriau gwaith penodol ei gwneud hi'n anodd cynllunio ymlaen llaw o ran ymrwymiadau teuluol / cymdeithasol ac efallai y bydd pwysau o ran bod 'ar alwad' yn gyson. Mae llawer o gontractau dim oriau hefyd yn golygu nad oes raid i'r cyflogwr gadw at rai elfennau o gyfraith cyflogaeth sy'n ymwneud â hawliau gweithwyr fel tâl salwch, tâl gwyliau neu ymrwymiadau hyfforddi a bod staff hefyd yn methu allan ar y buddion mae gweithwyr llawn amser neu barhaol yn eu cael yn safonol, megis pensiwn a hawliau diswyddo.

Fodd bynnag, nid yw contractau dim oriau wastad yn cael eu gweld fel rhywbeth negyddol. Mae rhai grwpiau yn gweld yr hyblygrwydd yn fantais, er enghraifft, pobl ifanc sy'n cyfuno gweithio hyblyg gyda'u hastudiaethau. Efallai byddant hefyd yn ffordd o hybu incwm y cartref dros dro, neu o ddarparu profiad gwaith mewn sectorau cyflogaeth gwahanol.

Siart 2.7: rhagamcanion o bobl yn y gwaith yn y DU sydd ar gontractau dim oriau

Ffynhonnell: Labour Force Survey, ONS



Yn ôl Arolwg Gweithlu'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, ar draws y DU, roedd y nifer o bobl a gyflogir ar "gontractau dim oriau" yn eu prif swydd, yn ystod mis Hydref i fis Rhagfyr 2018 yn 844,000, yn cynrychioli 2.6% o'r holl bobl mewn cyflogaeth. Mae'r amcangyfrif diweddaraf hwn yn 47,000 yn llai na'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol (901,000 neu 2.8% o bobl mewn cyflogaeth). Mae niferoedd y bobl sydd ar gontractau dim oriau wedi codi'n sylweddol rhwng 2013 a 2016 ond gallai hyn fod yn rhannol oherwydd bod mwy o ymwybyddiaeth o'r mater[7]. Nid oes data am gontractau dim oriau ar gael ar lefel leol.

Ar gyfartaledd, mae rhywun sydd ar gontract "dim oriau" yn gweithio 24.2 awr yr wythnos fel arfer. Mae tua un rhan obump y bobl (22.1%) ar "gontract dim oriau" eisiau mwy o oriau, gyda'r mwyafrif yn eu dymuno yn eu swydd bresennol, yn hytrach na swydd wahanol sy'n cynnig mwy o oriau. Mewn cymhariaeth, roedd 7.1% o bobl eraill mewn gwaith eisiau mwy o oriau.

Ar gyfer Hydref hyd Rhagfyr 2018:

- mae merched yn ffurfio cyfran fwy o'r rheiny sy'n adrodd gweithio ar "gontractau dim oriau" (54.6%) o'u cymharu â'u cyfran mewn cyflogaeth heb fod yn "gontractau dim oriau" (46.8%)
- mae pobl sy'n dweud eu bod ar "gontract dim oriau" yn fwy tebygol o fod ar ben ieuengaf yr ystod oedran; mae 34.1% o bobl ar "gontractau dim oriau"

[7] Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, roedd cynnydd yn y nifer o bobl sy'n adrodd i'r LFS eu bod ar gontract dim oriau yn debygol o gael eu heffeithio gan fwy o ymwybyddiaeth a chydnabyddiaeth o'r term "contract dim oriau". Efallai bod y newid blynyddol diweddaraf hwn wedi cael ei effeithio fel hyn ond nid yw'n bosibl amcangyfrif y graddau.

rhwng 16 a 24 oed (o gymharu â 14.6% ar gyfer pawb mewn cyflogaeth heb fod yn gontract "dim oriau")

- mae 19.5% o bobl ar "gontractau dim oriau" mewn addysg llawn amser o'i gymharu â 2.3% o bobl eraill mewn gwaith
- mae 66.1% o bobl ar "gontractau dim oriau" yn gweithio'n rhan-amser o gymharu â 25.2% ar gyfer pawb mewn cyflogaeth heb fod yn gontract "dim oriau"
- mae 22.2% o bobl mewn cyflogaeth ar "gontract dim oriau" yn y diwydiant llety a bwyd
- mae 10.8% o'r bobl a gyflogir yn y diwydiant llety a bwyd ar "gontract o ddyddiau"

Mae'r cyfran uchel o swyddi "oriau sero" yn y gwasanaethau llety a bwyd i'w nodi ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy gan fod y sectorau hyn yn darparu cyfran cymharol uchel o swyddi yn yr ardal (13.9% ym Mwrdeistref Sirol Conwy, o'i gymharu â 7.4% ledled y DU) – gweler yr adran ar gyflenwad llafur i gael rhagor o wybodaeth.

Mae rhagor o wybodaeth am y farchnad lafur i'w cael ym mhroffil ardal NOMIS yn http://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/2038432106/report.aspx

Rhan 3: Strwythur busnes

Strwythur busnes – busnesau ym Mwrdeistref Sirol Conwy

Mae'r adran hon yn ymwneud â mentrau sydd â'u pencadlys neu brif ganolfan weithredu yn yr ardal. Ar gyfer BS Conwy, nid yw'n cynnwys busnesau neu sefydliadau cenedlaethol neu ryngwladol sydd â'u pencadlys tu allan i'r ardal (er enghraifft, y cadwyni manwerthu mawr neu fanciau).

Mae'r amcangyfrif o nifer y mentrau busnes yn cynnwys busnesau TAW gofrestredig a busnesau cofrestredig PAYE. Nid yw'n cynnwys busnesau nad ydynt wedi'u cofrestru ar gyfer naill, a bydd hyn yn cynnwys nifer uchel o fasnachwyr unigol. Mae'n cynnwys busnesau o fewn y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol (er enghraifft, ysbytai neu elusennau lleol) yn ogystal â'r sector preifat.

Yn 2018 roedd amcangyfrif o 4,410 o'r mathau hyn o fentrau busnes ym Mwrdeistref Sirol Conwy, gynnydd bychan o tua 30 (0.7%) ers y flwyddyn flaenorol.

Tabl 3.1: mentrau busnes yn ôl diwydiant, 2018

Ffynhonnell: ONS interdepartmental business register

	BS Conwy		Cymru	Prydain Fawr	BS Conwy: llynedd
	Nifer	%	%	%	
Cyfanswm mentrau	4,410				4,380
Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota	695	15.8%	13.4%	5.0%	16.0%
Cynhyrchiad	210	4.8%	6.2%	5.6%	4.7%
Adeiladu	495	11.2%	12.5%	12.4%	11.2%
Diwydiant cerbydau	160	3.6%	3.6%	2.8%	3.7%
Cyfanwerthu	115	2.6%	3.1%	3.8%	2.7%
Manwerthu	365	8.3%	8.8%	7.6%	8.4%
Trafnidiaeth a storio (gan gynnwys post)	125	2.8%	3.7%	4.1%	3.1%
Llety a gwasanaethau bwyd	545	12.4%	8.3%	5.7%	12.4%
Gwybodaeth a chyfathrebu	140	3.2%	4.3%	8.4%	3.3%
Cyllid ac yswiriant	95	2.2%	1.7%	2.2%	1.3%
Eiddo	105	2.4%	2.7%	3.6%	2.4%
Proffesiynol, gwyddonol a thechnegol	465	10.5%	11.6%	17.8%	10.8%
Gweinyddiaeth busnes a gwasan. cefnogi	305	6.9%	7.4%	8.5%	6.7%
Gweinyddiaeth gyhoeddus a amddiffyn	20	0.5%	0.5%	0.3%	0.5%
Addysg	55	1.2%	1.3%	1.7%	1.3%
Iechyd	235	5.3%	4.3%	4.1%	5.0%
Celf, adloniant a gwasanaethau eraill	280	6.3%	6.5%	6.4%	6.5%

Mae ffigyrau wedi eu talgrynnu i'r 5ed agosaf ac efallai nad ydynt yn cyfrannu at gyfanswm y golofn.

Mae cyfran y busnesau sydd o fewn y sector amaethyddol (15.8%) yn arbennig o uchel o'i gymharu â ffigyrau Prydain (dim ond 5%), gan adlewyrchu natur wledig llawer o'r Fwrdeistref Sirol. Mae'r sector gwasanaethau llety a bwyd hefyd yn cyfrif am gyfran uchel o fusnesau (12.4%) o'i gymharu â'r tueddiadau cenedlaethol, o ganlyniad i bwysigrwydd y diwydiant twristiaeth yn yr ardal. Mae tangynrychiolaeth o'r sectorau sgiliau uchel (proffesiynol, gwyddonol a thechnegol; gwybodaeth a chyfathrebu) ym Mwrdeistref Sirol Conwy o'i gymharu â Phrydain yn ei chyfanrwydd.

Fodd bynnag, nid yw cyfran y busnesau o fewn sector o ddiwydiant yn rhoi mesur llawn o bwysigrwydd y sector hwnnw o fewn yr economi leol a'r farchnad gyflogaeth, (gweler tabl 2.2 uchod). Mae dim ond hanner y cant o fusnesau yn dod o fewn y sector gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn, ond mae'r 20 neu lai o fentrau yn y grŵp hwn yn cynnwys Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, dau o'r cyflogwyr mwyaf yn yr ardal. Bydd llawer o fusnesau yn y sector amaethyddol yn fach iawn o ran nifer y gweithwyr a throsiant.

Tabl 3.2: mentrau busnes yn ôl nifer gweithwyr, 2018

Ffynhonnell: ONS interdepartmental business register

	BS Conwy		Cymru	Prydain Fawr	BS Conwy - llynedd
	Nifer	%	%	%	
Cyfanswm mentrau	4,410				4,380
0 - 4 gweithiwr	3,315	75.2%	76.3%	78.0%	75.2%
5 - 9 gweithiwr	600	13.6%	12.8%	11.4%	13.6%
10 - 19 gweithiwr	270	6.1%	6.0%	5.7%	6.2%
20 - 49 gweithiwr	160	3.6%	3.2%	3.0%	3.7%
50 - 99 gweithiwr	45	1.0%	0.9%	1.0%	0.9%
100 - 249 gweithiwr	10	0.2%	0.5%	0.6%	0.3%
250 + gweithiwr	10	0.2%	0.3%	0.4%	0.1%

Tabl 3.3: mentrau busnes yn ôl maint trosiant blynyddol, 2018

Ffynhonnell: ONS interdepartmental business register

	BS Conwy		Cymru	Prydain Fawr	BS Conwy - llynedd
	Nifer	%	%	%	
Cyfanswm mentrau	4,410				4,380
£0 - 49,999	835	18.9%	19.6%	15.9%	19.3%
£50,000 - 99,999	1,000	22.7%	23.4%	23.4%	22.9%
£100,000 - 249,999	1,450	32.9%	30.3%	32.0%	32.6%
£250,000 - 499,999	550	12.5%	12.5%	12.4%	12.2%
£500,000 - 999,999	300	6.8%	6.8%	7.1%	6.8%
£1m - 4.9m	215	4.9%	5.8%	6.9%	5.0%
£5m +	60	1.4%	1.7%	2.3%	1.0%

Mae busnesau sydd â'u prif ganolfan ym Mwrdeistref Sirol Conwy yn tueddu i fod yn llai na busnesau Cymru neu Brydain Fawr yn eu cyfanrwydd o ran maint y gweithlu a lefelau trosiant blynyddol, ond mae hyn i'w ddisgwyl o ystyried bod mwy o fusnesau sy'n gweithredu yn genedlaethol ac sy'n cyrraedd mwy wedi eu cynnwys yn ffigurau Cymru a Phrydain Fawr.

Genedigaethau a marwolaethau busnes

Siart 3.1: cyfraddau genedigaethau a marwolaethau mentrau
Ffynhonnell: ONS business demography





Yn 2017, roedd 4,120 o fentrau gweithredol a oedd â'u prif ganolfan weithredol ym Mwrdeistref Sirol Conwy – a oedd cynnydd â'r flwyddyn flaenorol. Pan gafodd hyn ei fesur yn erbyn y boblogaeth o oedran gweithio (rhwng 16 a 64 oed) roedd cyfraddau genedigaethau a marwolaethau mentrau (dechrau a chau lawr) yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Prydain. Roedd nifer y genedigaethau -2.4% yn llai na'r flwyddyn flaenorol.

Prif effaith dirywiad economaidd 2007/08 oedd atal gyfraddau cychwyn busnes yn hytrach nag achosi mwy o fusnesau i gau. Ar ôl cyfnod o gyfraddau dechrau mentrau yn gostwng a ddigwyddodd cyn y dirwasgiad byd-eang, bu cynnydd o dair blynedd mewn cyfraddau sefydlu busnes a oedd yn awgrymu gwelliant economaidd. Er bod cyfraddau busnesau newydd rŵan i'w weld yn gostwng ar gyfer BS Conwy nid yw'n amlwg ar hyn o bryd a yw hyn yn wrthdroad parhaus yn y duedd ar i fyny. Mae cyfraddau marwolaethau busnesau BS Conwy wedi amrywio llai na chyfraddau geni dros y 10 mlynedd diwethaf. Ond, gall cyfraddau marwolaeth busnesau ar gyfer Prydain Fawr fel cyfanrwydd fod yn rybudd o ansicrwydd yn yr economi ehangach.

Tabl 3.4: demograffeg busnes (genedigaethau, marwolaethau a stoc), 2017

Ffynhonnell: ONS business demography

	BS Conwy	Cymru	PF
Stoc mentrau gweithredol	4,120	102,890	2,864,990
fesul 10,000 y boblogaeth oed 16-64	622	535	710
canran newid ers blwyddyn diwethaf	2.6%	4.5%	3.2%
Genedigaethau	405	14,120	375,030
fesul 10,000 y boblogaeth oed 16-64	61	73	93
canran newid ers blwyddyn diwethaf	-2.4%	16.5%	-8.1%
Marwolaethau	385	10,725	351,875
fesul 10,000 y boblogaeth oed 16-64	58	56	87
canran newid ers blwyddyn diwethaf	14.9%	12.0%	24.1%

Nodiadau:
Yn cynnwys busnesau TAW gofrestredig a busnesau cofrestredig PAYE. Nid yw'n cynnwys busnesau nad ydynt wedi'u cofrestru ar gyfer naill, a bydd hyn yn cynnwys nifer uchel o fasnachwyr unigol. Mae'n cynnwys busnesau o fewn y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol (er enghraifft, ysbytai neu elusennau lleol) yn ogystal â'r sector preifat.

Mae'r data'n ymwneud â mentrau sydd â'u pencadlys neu brif ganolfan weithredu yn yr ardal. Ar gyfer BS Conwy, nid yw'n cynnwys busnesau neu sefydliadau cenedlaethol neu ryngwladol sydd â'u pencadlys tu allan i'r ardal (er enghraifft, y cadwyni manwerthu mawr neu fanciau).

Yn ogystal â chyfraddau cychwyn a chau blynyddol ar gyfer busnesau, gall cyfraddau goroesi ein helpu i ddeall pa mor iach yw'r economi leol. Mae cyfraddau goroesi yn dweud wrthym pa gyfran o fusnesau a aned mewn blwyddyn benodol sy'n dal i weithredu mewn blynyddoedd diweddarach. Er bod cyfraddau ym Mwrdeistref Sirol Conwy yn debyg yn gyffredinol i ffigurau cenedlaethol, yn y flwyddyn ddiwethaf, bu lleihad amlwg yng nghyfran y busnesau sydd wedi goroesi am bum mlynedd, sydd ddim wedi'i adlewyrchu ar lefel genedlaethol.

Tabl 3.5: cyfraddau goroesi busnesau

Ffynhonnell: ONS business demography

	BS Conwy	Cymru	PF
Wedi goroesi 1 flwyddyn			
Ganed yn 2016	92.8%	91.8%	91.6%
Ganed yn 2015	93.3%	90.8%	89.8%
Ganed yn 2014	92.6%	92.4%	92.3%
Ganed yn 2013	93.5%	93.6%	93.6%
Ganed yn 2012	92.0%	92.3%	91.3%
Ganed yn 2011	93.8%	94.2%	93.1%
Ganed yn 2010	88.5%	86.7%	86.7%
Ganed yn 2009	91.5%	92.1%	90.9%
Ganed yn 2008	94.4%	94.2%	92.2%
Ganed yn 2007	92.9%	94.6%	95.4%
Ganed yn 2006	98.8%	96.5%	96.5%
Wedi goroesi 5 mlynedd			
Ganed yn 2012	40.0%	44.0%	43.2%
Ganed yn 2011	43.8%	43.3%	44.1%
Ganed yn 2010	41.0%	40.7%	41.4%
Ganed yn 2009	39.4%	40.8%	41.8%
Ganed yn 2008	43.7%	42.5%	41.4%
Ganed yn 2007	44.7%	43.6%	44.6%
Ganed yn 2006	44.4%	44.3%	44.9%

Rhan 4: Yr economi leol

Ceisiadau cynllunio

Tabl 4.1: ceisiadau cynllunio a gafwyd

Ffynhonnell: cofrestr ceisiadau cynllunio, Gwasanaeth Rheoleiddio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy; Awdurdod Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri

	Chwarter 1 Ebr-Meh	Chwarter 2 Gor-Med	Chwarter 3 Hyd-Rhag	Chwarter 4 Ion-Maw	Blynyddol Ebr-Maw
2018/19	322*	296*	255*		
2017/18	326	304	307	345	1,282
2016/17	351	364	341	358	1,414
2015/16	276	290	279	346	1,191
2014/15	287	255	287	305	1,134
2013/14	236	261	238	255	990
2012/13	238	213	233	212	896
2011/12	240	242	269	225	976
2010/11	280	256	238	241	1,015
2009/10	322	263	250	248	1,083
2008/09	421	351	281	316	1,369
2007/08	428	413	387	427	1,655

* Y ffigyrau ar gyfer ardal yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn unig, nad yw'n cynnwys ardal Parc Cenedlaethol Eryri sydd ym Mwrdeistref Sirol Conwy.

Siart 4.1: ceisiadau cynllunio a gafwyd

Ffynhonnell: cofrestr ceisiadau cynllunio, Gwasanaeth Rheoleiddio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy; Awdurdod Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri



* Y ffigyrau Ebr-Rhag 2018 yn ar gyfer ardal yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn unig, nad yw'n cynnwys ardal Parc Cenedlaethol Eryri sydd ym Mwrdeistref Sirol Conwy.

Er bod angen i ni drin y ffigyrau hyn yn ofalus – gan nad yw hi'n bosibl i ni ddweud os yw cais cynllunio unigol ar gyfer prosiect domestig ar raddfa fach fel estyniad cegin neu ar gyfer datblygiad tai 100 uned – fodd bynnag, mae'r tabl a'r siart yn dangos effeithiau'r hinsawdd economaidd gyfredol ar hyder a chynhyrchiant y diwydiant adeiladu.

Eiddo gwag annomestig

Cafodd 8.7 % o eiddo annomestig ym Mwrdeistref Sirol Conwy eu cofrestru yn wag ar ddiwedd mis Rhagfyr 2018. Mae hyn oddeutu 485 i gyd. Mae nifer yr eiddo gwag wedi codi ers y chwarter diwethaf. Bu toriad mewn parhad data felly nid ydym yn gallu cymharu gyda'r data o lynedd.

Tabl 4.2: eiddo gwag annomestig

Ffynhonnell: cofrestr cyfraddau annomestig, Gwasanaeth Refeniw a Budd-dal, CBS Conwy

	Rhagfyr 2018			Dod yn wag yn y 3 mis diwethaf	Yn wag am fwy na 12 mis
	Nifer	Fel % o'r cyfan	yn wag fel % math		
Pob eiddo annomestig	5,584	100.0%			
Pob eiddo gwag	485	8.7%		38	349
Masnachol	213	3.8%	9.2%	11	163
Diwydiannol	13	0.2%	7.5%	1	10
Eiddo annomestig eraill*	21	0.4%	5.9%	1	16
Heb god	238	4.3%	8.4%	25	160

Daeth 38 eiddo yn wag yn y tri mis hyd at ddiwedd Rhagfyr 2018 – yr un nifer â'r chwarter blaenorol. I'w gymharu â'r chwarter olaf, mae nifer yr eiddo sydd wedi bod yn wag am fwy na blwyddyn wedi codi gan 5. Mae eiddo sydd wedi bod yn wag ers dros flwyddyn cymaint ag 6.3% yr holl eiddo annomestig yn y Fwrdeistref Sirol – cyfanswm o 349.

Mae o leiaf 226 o'r eiddo gwag yn rhai masnachol (gan gynnwys siopau, tai bwyta, ystafelloedd arddangos, gwestai a busnesau eraill) neu'n eiddo diwydiannol. Fodd bynnag, mae'r categori 'heb god' bron yn sicr yn cynnwys cyfan uchel o eiddo masnachol, ond nid yw'n bosibl amlygu faint yn union. Am y rheswm hwn, nid yw'n bosibl edrych yn fanwl ar y mathau o eiddo gwag.

Tabl 4.3: y newid mewn eiddo annomestig gwag
Ffynhonnell: cofrestr cyfraddau annomestig, Gwasanaeth Refeniw a Budd-dal, CBS Conwy

	Newidiadau ers chwarter diweddaf (Med 2018)	
	Nifer	%
Pob eiddo annomestig	28	0.5%
Pob eiddo gwag	4	0.8%
Masnachol	-5	-2.3%
Diwydiannol	1	8.3%
Eiddo annomestig eraill*	-1	-4.5%
Heb god	9	3.9%

* mae "eiddo annomestig eraill" yn cynnwys sefydliadau meddygol, addysgol a hamdden

Mae crynodeb o ddata ynglŷn ag eiddo gwag yn ôl is-ardal strategol yn atodiad 2.

Rhan 5: Gweithgarwch tai

Mae darpariaeth tai da yn hanfodol er mwyn caniatáu i weithwyr symud i ardaloedd lle bo swyddi ar gael. Mae buddsoddi mewn tai hefyd yn cynhyrchu cyflogaeth sylweddol. Mae'n allweddol ar gyfer incwm aelwyd; tai sy'n fforddiadwy – nad ydynt yn rhoi pwysau gormodol ar incwm yr aelwyd – lleihau'r perygl o dlodi a chaledi ariannol.

Yn ogystal â hyn, mae tai da yn darparu lloches, diogelwch, gofod ar gyfer bywyd teuluol a gweithgareddau, preifatrwydd, hunaniaeth bersonol a datblygiad. Mae'n gonglfaen lles unigol a chymunedol.

Mynegai prisiau tai y DU

Mae'r Gofrestrfa Tir yn cyhoeddi data prisiau tai cyfartalog yn fisol. Dyma'r ffigwr prisiau tai sydd fel arfer yn cael ei adrodd yn y cyfryngau, ac mae'r tabl a'r siart isod yn edrych ar beth mae hyn yn ei ddangos. Beth bynnag, mae'r ffigyrau misol Conwy yn seiliedig ar werthiannau nifer bychan iawn o dai ac mae'n rhaid bod yn ofalus oherwydd byddai un gwerthiant pris uchel yn gallu gwyro'r data. Mae'r adran hon yn yr adroddiad yn ystyried y data misol hwn i ddarparu'r adroddiad mwyaf amserol o ran prisiau tai, ac mae'r adran nesaf yn ystyried data hŷn sy'n fwy cadarn yn fanylach.

Siart 5.1: prisiau tai a nifer y gwerthiannau, Ebrill 2000-Ionawr 2019
Ffynhonnell: mynegai prisiau tai y Deyrnas Unedig, y Gofrestrfa Tir



Yn gyffredinol mae prisiau tai yn BS Conwy ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru, ond yn sylweddol is na lefel y DU.

Er gwaethaf pris cyfartalog tŷ (cymedr) ym Mwrdeistref Sirol Conwy yn codi o 3.1% yn y flwyddyn ddiwethaf, mae prisiau tai ym Mwrdeistref Sirol Conwy ar hyn o bryd yn 132.6% yn unig o'r lefel yr oeddent 10 mlynedd yn ôl (Y DU ar gyfartaledd = 145.1%). Mae'r rhan fwyaf o'r cynnydd mewn prisiau tai cenedlaethol sy'n cael eu hadrodd yn y cyfryngau yn cael eu gyrru i raddau helaeth gan gynnydd mewn prisiau yn Llundain a de-ddwyrain Lloegr er mae adroddiadau diweddar yn awgrymu bod y farchnad dai yn dechrau llonyddu yn yr ardaloedd hyn. Ar gyfer rhan helaeth o weddill y DU, mae'r farchnad dai wedi bod yn gymharol isel ers dechrau 2008, a dim ond yn ddiweddar y mae prisiau tai wedi cyrraedd y lefelau ble roeddent cyn dirwasgiad 2007/08.

Er gwaethaf hwn a'r gostyngiad sylweddol ym mhrisiau tai rhwng Ionawr a Hydref 2008 a achoswyd gan y dirywiad economaidd byd-eang, mae prisiau tai ar gyfartaledd ym Mwrdeistref Sirol Conwy ar hyn o bryd yn dal yn myw na thair gwaith prisiau Ebrill 2000 (sef adeg dechrau'r ffyniant tai diwethaf). Mewn cymhariaeth, nid yw cyflogau cyfartalog llawn amser wedi cynyddu gymaint ac maent oddeutu un a hanner gwaith yr hyn yr oeddent yn 2000.

Mae pris cyfartalog tŷ ym Mwrdeistref Sirol Conwy ar hyn o bryd 6.0 gwaith incwm cyfartalog aelwydydd o £27,800 a 10.3 gwaith incwm aelwydydd y chwartel isaf o £16,150. Byddai mwyafrif y cyflenwyr morgais yn dymuno benthyg gyda chymhareb incwm o oddeutu 3.5 neu 4.

Tabl 5.1: mynegai prisiau tai, Ionawr 2019

Ffynhonnell: mynegai prisiau tai y Deyrnas Unedig, y Gofrestrfa Tir

	BS Conwy	Cymru	Cymru a Lloegr	Y DU
Cyfartaledd prisiau (£)	166,689	160,232	239,713	228,147
Newid misol (%)	2.6	-1.0	-1.3	-0.9
Newid blynyddol (%)	3.1	4.6	1.6	1.7
Mynegai Ebr 2000* (Ebr '00=100)	305.7	299.7	306.8	255.7
Mynegai 10 mlynedd* (Ion '09=100)	132.6	128.2	149.3	145.1

* Mae mynegai yn ddull o fesur newid cymharol dros amser. Os cymerir bod cyfartaledd pris tŷ yn 100 ym mis Ebrill 2000, mae'r mynegai yn dangos sut mae'r prisiau wedi newid ers y dyddiad hwnnw. Er enghraifft, mae mynegai o 150 yn dangos bod y pris presennol un waith a hanner yn uwch na'r pris ar ddechrau cyfnod y mynegai.

Mae nifer y trafodion dal yn isel i'w cymharu â lefelau 2006/07, ac yn pwyntio at ostyngiad sylweddol mewn gweithgarwch yn y farchnad dai, er bod y niferoedd yn cynyddu.

Dadansoddiad prisiau tai blynyddol

Er mai dyma'r data prisiau tai mwyaf diweddar sydd ar gael, nid yw mynegai prisiau tai'r DU yn caniatáu dadansoddiad manwl o dueddiadau, ac mae'n destun amrywiant gan ei fod yn seiliedig ar gyfres ddata eithaf bychan sy'n cael ei diweddaru'n fisol.

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn ystyried data mewn modd gwahanol gan ddefnyddio data trafodion lefel uned sydd ar gael gan y Gofrestrfa Tir, ac sy'n casglu data am y flwyddyn gyfan. Mae'r mesur canolrif cyfartalog a ddefnyddir yma yn fwy cadarn na'r mesur cymedr a ddefnyddir ym mynegai'r DU, ac os edrychwn ar hwn yn flynyddol yn hytrach na bob mis gallwn hefyd gael gwared ar yr amrywiadau a achosir gan y nifer isel o drafodion misol a natur dymhorol y farchnad dai.

Nodyn: nid yw'r data hwn yn ymwneud â'r un cyfnod o amser â'r data yn yr adran flaenorol.

Tabl 5.2: newidiadau mewn prisiau tai fesul y math o lety

Ffynhonnell: Land Registry price paid data

	2017	Newidiadau ers llynedd		Newid ers 2006	
		Nifer	%	Nifer	%
Prisiau tai canolrif					
Bob math	£156,000	£6,000	4.1%	£11,000	7.6%
Tŷ ar wahân	£212,750	£2,750	1.4%	£16,750	8.5%
Fflat	£118,200	£25,450	21.7%	-£800	-0.7%
Tŷ pâr	£147,000	£7,750	5.8%	£9,125	6.6%
Tŷ teras	£120,000	£5,000	4.3%	£2,000	1.7%
Adeilad newydd	£206,498	-£1,953	-1.0%	-	-
Ailwerthu	£152,500	£5,500	3.8%	-	-
Prisiau tai chwarter isaf					
Bob math	£120,000	£8,000	7.0%	£5,000	4.3%
Tŷ ar wahân	£164,375	£6,375	4.1%	£6,375	4.0%
Fflat	£78,000	£18,000	23.5%	-£7,000	-8.2%
Tŷ pâr	£122,000	£3,500	3.0%	£5,688	4.9%
Tŷ teras	£99,250	£4,250	4.5%	-£750	-0.8%
Adeilad newydd	£169,450	£10,500	6.6%	-	-
Ailwerthu	£116,750	£6,750	6.0%	-	-

Mae gan hanner o holl werthiannau tai ar bwynt y canolrif (cyfartaledd) neu sy'n is nag o. Mae gan chwarter (25%) o holl werthiannau tai sydd ar bwynt y chwarter isaf neu'n is nag o. Defnyddir prisiau tai chwartel isaf weithiau i fesur beth sy'n fforddiadwy o fewn y farchnad agored.

Yn 2017 pris tai canolrif Bwrdeistref Sirol Conwy £156,000, cynnydd o 3.3% ers y flwyddyn flaenorol. Prisiau tai'r chwartel isaf oedd £120,000, cynnydd o 7% ers y flwyddyn flaenorol. Mae'r prisiau tai canolrif a chwartel isaf yn dangos mai tai ar wahân yw math eiddo drytaf. Yr eiddo rhataf yw fflatiau.

Pris y tŷ rhataf a werthwyd yn 2017 oedd fflat yng nghanol Bae Colwyn a werthodd am £26,000 – mae pris mor isel yn awgrymu ei fod naill ai angen ei adnewyddu'n sylweddol, neu ei fod wedi'i werthu am bris gostyngol iawn, efallai fel rhan o

etifeddiaeth neu setliad ysgariad. Y drytaf oedd tŷ ar wahân a werthodd am bris dros 57 gwaith yn fwy na hynny, o £1,485,000 – neu 8 gwaith y pris canolrifol cyfartalog.

Mae'r newidiadau ers 2006 yn rhoi syniad o effaith y dirywiad economaidd ar y farchnad dai a ddechreuodd yn 2007 ac sy'n parhau i gael effaith yn BS Conwy.

Yn gyffredinol, dechrau dychwelyd i'w lefelau yn 2006 mae prisiau tai, er eu bod yn dal i fod yn isel ar gyfer rhai mathau o dai – yn enwedig ar gyfer fflatiau, lle mae'r gostyngiad yn y pris cyfartalog ers 2006 yn rhannol oherwydd symudiad yn y duedd genedlaethol i adeiladu mwy o fflatiau moethus drud yng nghanol y 00au.

Tabl 5.3: nifer o werthiannau a gofrestrwyd fesul y math o lety

Ffynhonnell: Land Registry price paid data

	2017	Newidiadau ers llynedd		Newid ers 2006	
		Nifer	%	Nifer	%
Bob math	2,475	314	16.2%	171	7.4%
Tŷ ar wahân	908	188	24.6%	131	16.9%
Fflat	443	143	49.5%	103	30.3%
Tŷ pâr	734	165	27.6%	-24	-3.2%
Tŷ teras	390	47	16.1%	-39	-9.1%
Adeilad newydd	164	112	109.8%	-	-
Ailwerthu	2,331	451	24.5%	-	-

Dim ond yr adeiladau newydd hynny sydd wedi eu cofrestru fel newid perchnogaeth tir sydd wedi eu cynnwys, felly bydd rhai tai a adeiladodd pobl eu hunain wedi eu heithrio.

Nid yw pob tŷ a werthwyd wedi eu cofnodi trwy'r Gofrestrfa Tir ac efallai y bydd rhai trafodion yn gweld oedi o ran cofrestru, ond hwn yw'r gofrestr fwyaf cyflawn o brisiau tai sydd ar gael yn y DU.

Roedd cynnydd sylweddol yn swm y gwerthiannau tai o gymharu â'r flwyddyn flaenorol ar gyfer pob math o dai, ac am y tro cyntaf er dirywiad economaidd 2007/2008, roedd gwerthiannau tai yn 2017 yn uwch nag yn 2006. Fodd bynnag nid yw gwerthiannau tai ar wahân wedi dioddef cwymp. Ond, mae lefel gwerthiannau is yn parhau, o gymharu â 2006 ar gyfer rhai tai llai (a rhatach), sydd yn ôl pob tebyg yn dangos mwy o bwysau ar ran uwch y farchnad dai. Efallai bod hyn oherwydd anawsterau derbyn morgais a chynilion ar gyfer blaendal ar gyfer rhai sy'n prynu am y tro cyntaf ac/neu anfodlonrwydd perchen-feddianwyr i symud i fyny'r ysgol dai lle bo'r farchnad yn gyfnewidiol neu'n ansicr.

Fforddiadwyedd prynu cartref

Mae'r adran hon yn edrych ar fforddiadwyedd eiddo am brisiau canolrif a chwartel is o'i gymharu ag incwm canolrif.

Mae cymhareb (neu luosydd) prisiau tai i incwm aelwydydd yn rhoi rhyw syniad o ba mor fforddiadwy yw tai yn yr ardal ar gyfer prynwyr tro cyntaf.

Fel arfer mae angen cymhareb o 3 i 4 gwaith incwm i allu fforddio morgais. Yn 2017 y gymhareb gyfartalog (canolrif) o ran prisiau tai ac incwm oedd 5.91 ar gyfer BS Conwy. Hyd yn oed os yw prynwr wedi llwyddo cynilo'r £31,200 sydd ei angen i ddarparu blaendal o 20%, mae tai ar y pris canolrif allan o gyrraedd pobl gyda'r incwm aelwyd canolrif, gyda chymhareb o 4.73.

Tabl 5.4: cymhareb prisiau tai i'r incwm aelwydydd canolrif (2017)

Ffynonellau: CACI PayCheck data; Land Registry price paid data

	Bwrdeistref Sirol Conwy	Gogledd Cymru	Cymru
Pris llawn			
Pris tai canolrif	5.91	5.57	5.64
Pris tai chwarter isel	4.64	4.50	4.86
Gyda blaendal 10%			
Pris tai canolrif	5.32	5.01	5.08
Cyfanswm y blaendal sydd ei angen	£15,600	£15,150	£14,995
Pris tai chwarter isel	4.09	3.81	3.56
Cyfanswm y blaendal sydd ei angen	£12,000	£11,500	£10,500
Gyda blaendal 10%			
Pris tai canolrif	4.73	4.46	4.51
Cyfanswm y blaendal sydd ei angen	£31,200	£30,300	£29,990
Pris tai chwarter isel	3.64	3.38	3.16
Cyfanswm y blaendal sydd ei angen	£24,000	£23,000	£21,000

Er ei bod yn fwy fforddiadwy, eiddo llai yn bennaf yw tai yn yr ystod chwartel isaf (er enghraifft, eiddo un ystafell wely a/ neu fflatiau wedi eu haddasu) neu'r rheiny sydd angen llawer o waith adnewyddu. Yn BS Conwy mae eiddo yn yr ystod prisiau isaf hefyd yn cynnwys nifer sylweddol o fflatiau ymddeol, sydd â chyfyngoiadau o ran pwy all eu prynu[8]. Ni allwn gymryd yn ganiataol bod y tai rhatach hyn yn darparu llety addas ar gyfer pob prynwr tro cyntaf.

Mae'r dadansoddiad hwn newydd edrych ar y sefyllfa ar gyfer aelwydydd sydd ag incwm canolrifol. Yn amlwg, mae unigolion a chartrefi sydd ag incwm sy'n dod o dan y lefel incwm hon yn ei chael hi'n anoddach fyth i brynu cartref, o ran bod yn gymwys i gael morgais yn seiliedig ar eu hincwm, a chynilio ar gyfer blaendal. Bydd hyn yn berthnasol i'r rhai sydd eisoes yn berchen ar eiddo ond efallai na fyddant yn medru symud i lety mwy neu fwy priodol fel mae eu hamgylchiadau'n newid yn ogystal â'r rhai sy'n dymuno mentro i'r farchnad dai am y tro cyntaf.

Mewn perthynas ag incwm aelwydydd, mae Bwrdeistref Sirol Conwy yn lle ychydig drytach i brynu tŷ nag ar draws ardal Gogledd Cymru a Chymru yn ei chyfanrwydd.

[8] Dangosodd dadansoddiad o'r eiddo sydd ar werth ar wefan Rightmove (Mai 2017) fod 9% o'r holl eiddo â phris sy'n gofyn am £125,000 neu lai yn fflatiau ymddeol.

Gweithgarwch adeiladu tai

Rhwng Ebrill 2008 a Mawrth 2018 y gyfradd cwblhau aneddiadau newydd ac addasiadau ar gyfartaledd oedd tua 243 uned y flwyddyn, ac yn 296 yn 2017/18.

Ers y dirywiad economaidd yn 2007/08 mae gostyngiad cyffredinol yn y nifer yr aneddiadau newydd a adeiladwyd bob blwyddyn yn ardal y Bwrdeistref Sirol. Yn 2013/14 roedd cynnydd sylweddol yn y nifer o dai yn cael eu hadeiladu, yn rhannol o ganlyniad i'r nifer fawr o ddatblygiadau mawr a oedd yn cael eu cwblhau gan landlordiaid tai cymdeithasol cofrestredig. Ond roedd ffigyrau ar gyfer y rhan fwyaf o flynyddoedd eraill ers 2008/09 yn hynod o isel, ac efallai nad yw wedi acw fyny gyda'r galw.

Mae'r nifer o unedau sydd 'heb eu dechrau eto' wedi gostwng yn sylweddol ers 2010/11. Mae hyn oherwydd cyfuniad o lai o safleoedd yn cael eu cyflwyno am ganiatâd cynllunio, a safleoedd gyda chaniatâd presennol yn dod i ben gan na adeiladwyd arnynt yn ystod y cyfnod o 5 mlynedd o'u caniatâd. Mae'r ddau reswm hyn yn sgil-gynhyrchion o'r arafu yn y diwydiant adeiladu oherwydd y cwymp economaidd.

Tabl 5.5: gweithgarwch adeiladu tai – datblygiadau unedau gyda chaniatâd cynllunio neu ddyraniad cynllun lleol

Ffynhonnell: astudiaeth argaeledd tir preswyl blynyddol, Tîm Polisi Cynllunio, CBSC/LLC/Arolygiaeth Gynllunio & Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri/LLC/ Arolygiaeth Gynllunio

Blwyddyn	Cwblhau	Yn cael eu hadeiladu	Heb ddechrau eto
2017/18	322	316	1,571
2016/17	237	391	985
2015/16	187	413	980
2014/15	192	291	518
2013/14	303	353	906
2012/13	191	435	1,164
2011/12	226	194	1,730
2010/11	235	193	2,300
2009/10	222	249	2,531
2008/09	344	319	2,667
2007/08	427	331	2,671
2006/07	318	362	2,140
2005/06	392	305	1,909
2004/05	424	339	1,887
2003/04	503	342	1,930

Siart 5.3: adeiladu cartrefi newydd ym Mwrdeistref Sirol Conwy
Ffynhonnell: tydastudiaeth argaeledd tir ar gyfer tai, Tîm Polisi Cynllunio Strategol, CBSC/LIC/Arolygiaeth Gynllunio a Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri/LIC/Arolygiaeth Gynllunio



Ar gyfer pob blwyddyn ers Ebrill 2007 (y dyddiad dechrau ar gyfer y cynllun datblygu lleol presennol) mae'r ddarpariaeth o anheddau newydd wedi gostwng yn is na'r ffigur flynyddol sydd ei hangen i gyrraedd y gofyniad a nodwyd o 6,800 o anheddau ychwanegol erbyn 2022. Yn y 11 mlynedd i Ebrill 2018 dim ond 2,860 o anheddau ychwanegol sydd wedi'u darparu - os byddai'r gofyniad hwn yn cael ei rannu'n gyfartal ar draws y cyfnod hwnnw, dylai'r ffigur hynny fod yn nes at 4,990. Mae hynny'n ddiffyg o tua -2,130 neu -43% yn is na'r targed.

Rhan 6: Budd-daliadau lles, incwm a methdaliadau

Hawlwyr budd-daliadau

Tabl 6.1: hawlwyr budd-daliadau fel grŵp cleient a math o fudd-dal (Aws 2018)

Ffynhonnell: DWP benefit statistics, (Stat-Xplore)

	BS Conwy		Cymru	Prydain Fawr	Chwarter blaenorol	Blwyddyn flaenorol
	Nifer	%	%	%		
Plant (oedran 0-15)						
Lwfans Byw i'r Anabl (DLA)	920	4.8%	4.3%	3.9%	4.8%	4.6%
Oedran gweithio (oedran 16-66)						
Credyd Cynhwysol	1,385	2.0%	2.6%	2.7%	1.1%	1.3%
Lwfans Ceisio Gwaith	700	1.0%	1.0%	0.9%	1.4%	1.1%
Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA)	5,155	7.4%	7.7%	5.4%	7.7%	7.9%
Lwfans Byw i'r Anabl (DLA)	285	0.4%	1.3%	1.4%	0.4%	0.6%
Taliad Annibyniaeth Bersonol (PIP)	4,610	6.7%	5.9%	4.0%	6.6%	6.1%
Lwfans Gofalwr	2,135	3.1%	3.0%	2.3%	3.0%	2.8%
Pensiwnwyr (oedran 67+)						
Pensiwn y Wladwriaeth	30,300					
Credyd pensiwn	4,525	15.8%	17.8%	16.1%	16.1%	17.1%
Lwfans Gweini	5,210	18.2%	18.0%	15.1%	18.2%	18.5%
Lwfans Byw i'r Anabl (DLA)	2,035	7.1%	12.2%	7.2%	7.2%	7.7%
Taliad Annibyniaeth Bersonol (PIP)	910	3.2%	3.8%	2.5%	3.0%	2.5%
Lwfans Gofalwr	1,225	4.3%	4.8%	3.3%	4.3%	4.3%

* yn cynnwys Budd-daliadau Analluogrwydd
Mae'r ganran o'r holl bobl yn y grŵp oedran hwnnw
Mae anghysondeb yn data budd-daliadau wrth i'r Credyd Cynhwysol gael ei gyflwyno a dechrau disodli systemau dyfarnu hŷn.

Mae gan BS Conwy nifer uchel o hawlwyr budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag anabledd a / neu afiechyd, i'w gymharu â chyfartaledd PF (Taliad Annibyniaeth Bersonol (PIP)/ Lwfans Byw i'r Anabl (DLA), Lwfans Gweini, Lwfans Gofalwr a'r budd-daliadau anallu heb fod yn y gwaith, fel Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA)).

Yn edrych yn benodol ar budd-daliadau ar gyfer y grŵp cleientiaid oedran gweithio, ym mis Awst 2018 roedd 7,995 o hawlwyr drwy system yr Adran Gwaith a Phensiynau hyn, 1,385 o hawlwyr Credyd Cynhwysol a 4,900 hawlio Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) neu Daliad Annibyniaeth Bersonol (PIP) – cyfanswm o 14,275 o hawlwyr budd-daliadau oedran gwaith. Roedd cynnydd o gymharu â'r chwarter blaenorol (Mai 2018) o oddeutu 185 o hawlwyr. Ers y flwyddyn flaenorol, mae nifer cyffredinol hawlwyr budd-daliadau o oedran gweithio wedi cynyddu o 540. Daw'r cynnydd yn rhannol oherwydd ystod eang o fudd-daliadau sydd wedi'u cynnwys o

fewn y Credyd Cynhwysol o'i gymharu â diffiniadau hŷn o fudd-daliadau oedran gwaith.

Rhwng Mai ac Awst 2018 cynnodd y gyfran o'r boblogaeth oed 16-64 a oedd yn hawlio budd-daliadau gan 0.3 pwynt canran i 20.6%. Yn ystod y 10 mlynedd ddiwethaf mae cyfradd gyffredinol hawlwyr budd-dal oedran gweithio wedi aros yn gyffredinol 0.5-2 pwynt yn is na chyfartaledd Cymru gyfan, a 3-5 pwynt yn uwch na ffigwr Prydain.

Siart 6.1: hawlwyr budd-daliadau grŵp cleient oedran gweithio
Ffynhonnell: DWP benefit statistics, (Stat-Xplore)



* Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) neu Daliad Annibyniaeth Bersonol (PIP)

Cyflwynwyd system fudd-daliadau Credyd Cynhwysol i BS Conwy yng nghanol 2015, ac mae'r mwyafrif hawlwyr newydd wedi'u cofrestru ar y system hon. Mae'r hawlwyr presennol yn parhau i gael eu cyfrif o dan hen system yr Adran Gwaith a Phensiynau, sy'n cofnodi mwyafrif yr hawlwyr budd—daliadau yn yr ardal. Nid oes modd cynnal dadansoddiad manwl o ffigyrau Credyd Cynhwysol yn ôl math o fudd-daliadau fel y gellir ei gyflawni gyda system yr Adran Gwaith a Phensiynau, ac mae'r meini prawf cymhwyso yn wahanol, felly mae rhywfaint o anghysondeb rhwng y ffigyrau dros amser. Mae gan rai mathau o fudd-daliadau gyfradd cyflymach o drosglwyddo hawlwyr- er enghraifft Lwfans Ceisio Gwaith – a bydd data yr Adran Gwaith a Phensiynau yn ymddangos fel ei fod yn gostwng yn gyflym iawn wrth i'r hawlwyr newydd ar gyfer y math hwn o fudd-dal gael eu nodi ar system Credyd Cynhwysol. Mae mathau eraill o hawlwyr – y rhai sy'n cael eu cynnwys yn hen gategorïau'r Adran Gwaith a Phensiynau megis 'lwfans gofalwr' neu 'budd-dal analluogrwydd' – yn debygol o gael eu trosglwyddo'n llawer arafach i fudd-daliadau Credyd Cynhwysol.

Mae pobl sy'n hawlio budd-daliadau Lwfans Byw i'r Anabl hefyd wedi'u heffeithio gan ddisodliad y budd-dal hwn gyda'r budd-dal Taliad Annibyniaeth Personol (PIP). Bydd hyn yn bennaf yn effeithio ar bobl o oedran gwaith gan fod rhaglen i ailasesu a symud pob cleient yn y grŵp oedran hwn i'r budd-dal newydd. Ar hyn o bryd mae pobl dros oedran pensiwn[9] a phlant wedi'u heffeithio lai gan y newid.

Oherwydd hyn, dylid trin y dadansoddiad yn yr adran hon gyda gofal, gan efallai na fydd yn darparu darlun llawn o batrymau ystadegol hawlwyr budd-daliadau. Gobeithir y gellir gwella data Credyd Cynhwysol wrth i'r system ehangu a gwella.

Ennillion (cyflogau)

Mae data ar gyfer cyflogau canolrifol fesul gweithle ar gyfer swyddi gweithwyr wedi'u lleoli o fewn Bwrdeistref Sirol Conwy.

Mae'r data sydd gennym yn dod o sampl fechan ac felly mae'n eithaf cyfnewidiol, ond mae'n awgrymu bod lefelau cyflogau ar gyfer swyddi ym Mwrdeistref Sirol Conwy yn sylweddol is na'r lefel Brydeinig drwyddi draw. Canolrif cyflog gros yn 2018 (gan gynnwys goramser ac ychwanegiadau) i holl weithwyr amser llawn yng Nghonwy oedd £449. Roedd hyn yn 88% o gyfartaledd Cymru a dim ond 79% o gyfartaledd cyflogau Prydain.

Tabl 6.2: cyflog wythnosol gros – canolrif enillion fesul gwaithle (2018)

Ffynhonnell: Annual survey of hours and earnings (NOMIS)

	BS Conwy	Cymru	Prydain Fawr
Gweithwyr amser llawn	£449.20	£509.00	£570.90
Gwrywod - amser llawn	£439.70	£541.60	£611.80
Benywod - amser llawn	£466.80	£469.50	£509.80

Mae datchwyddiant cyflogau hefyd yn broblem. Yn ogystal â'r gwahaniaeth rhwng lefelau cyflogau BS Conwy a lefelau cyflogau cenedlaethol, mae pŵer prynu cyflogau wedi crebachu. Ar lefel DU, yn ddiweddar mae chwyddiant CPI a chwyddiant RPI wedi mynd heibio chwyddiant cyflogau, a bu cyfnod estynedig o lefelau cyflogau yn lleihau mewn termau real. Gan ganiatáu ar gyfer chwyddiant, mae cyflogau wythnosol ar gyfartaledd cenedlaethol ym mis Ionawr 2019 yn cyfateb i 98.7% yn unig o gyflogau wythnosol Ionawr 2009. (Average weekly earnings time series, ONS).

[9] Bydd hawlwyr newydd ar gyfer budd-daliadau anabledd sydd dros oedran pensiwn fel arfer yn cael Lwfans Gweini. Fodd bynnag, fe all pobl a dderbyniodd budd-daliadau yn ymwneud ag anableddau'n wreiddiol cyn iddynt gyrraedd oedran pensiwn barhau i dderbyn Lwfans Byw i'r Anabl neu Daliad Annibyniaeth Bersonol.

Incwm aelwydydd

Mae gan hanner o holl deuluoedd incwm sydd ar bwynt y canolrif (cyfartaledd) neu sy'n is nag o. Mae gan chwarter (25%) o holl deuluoedd incwm blynyddol sydd ar bwynt y chwarter isaf neu'n is nag o. Y trothwy mwyaf cyffredin a ddefnyddir ar gyfer incwm cymharol isel yw incwm teulu sy'n 60% neu'n llai na'r incwm teulu Prydeinig cyfartalog (canolrif) yn y flwyddyn honno.

Tabl 6.3: incwm aelwydydd blynyddol (2018)

Ffynhonnell: CACI PayCheck data

	BS Conwy	Cymru	Prydain Fawr
Incwm canolrif	£27,800	£26,950	£31,450
Incwm chwarter isel	£16,150	£15,250	£17,500
% o aelwydydd gydag incwm sy'n llai na 60% o ganolrif Prydain Fawr	31.5%	33.6%	27.8%

Ar gyfer yr holl fesuriadau hyn, mae lefelau incwm teulu ym Mwrdeistref Sirol Conwy yn llawer is na'r rhai ar gyfer Prydain Fawr ar y cyfan.

Mae mesuriadau incwm teuluol yn cynnwys cyflogau, cefnogaeth lles, buddsoddiadau, pensiynau ac incwm arall ar gyfer holl aelodau'r teulu.

Incwm aelwydydd crynswth i'w wario

Mae Incwm Aelwydydd Crynswth i'w Wario (incwm ar ôl tynnu trethi, pensiynau a chostau perchnogaeth eiddo) yn rhoi arwydd o'r swm o arian sydd ar gael i'w wario neu ei gynilo gan aelwydydd. Nid yw'n ddull mesur uniongyrchol o incwm aelwyd fodd bynnag. Defnyddir y label 'aelwyd' i'w wahaniaethu oddi wrth incwm ar gyfer busnesau. Mae'n cynnwys incwm sefydliadau dielw sy'n gwasanaethu aelwydydd (fel prifysgolion ac elusennau).

Tabl 6.4: incwm aelwydydd crynswth i'w wario (2016)

Ffynhonnell: UK national accounts (Blue Book), ONS

	BS Conwy	Cymru	DU
£ fesul pen	£16,450	£15,835	£19,432
Mynegai (DU = 100)	84.7	81.5	-
Cyfanswm (£ miliwn)	£1,922	£49,296	£1,275,698

O'r boblogaeth fesul pen, roedd Incwm Aelwydydd Crynswth i'w Wario (GDHI) ar gyfer BS Conwy a Sir Ddinbych yn 84.7% yn unig o gyfartaledd y Deyrnas Unedig. Rhwng 2015 a 2016, cododd cyfanswm yr arian oedd ar gael ar gyfer BS Conwy o

tua £3 miliwn yn gyffredinol, ond wrth i'r boblogaeth gynyddu yn yr un cyfnod, roedd hyn yn leihad o tua £29 y pen.

Methdaliadau unigol

Yn 2017, roedd 212 achos unigol o fethdaliad ym Mwrdeistref Sirol Conwy. Roedd hyn yn tua'r un nifer ag yn y flwyddyn flaenorol. Gwelodd 2016 y cynnydd cyntaf ers 2011.

Mae'r gyfradd o 22.2 achos unigol o fethdaliad fesul 10,000 oedolyn (18+ oed) ar gyfer BS Conwy wedi gostwng yn sylweddol o gymharu â chyfradd gyffredinol Cymru a Lloegr, ar ôl deng mlynedd o fod yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru a Lloegr. Er gwaethaf y gostyngiad diweddar, mae'r gyfradd ansolfedd bron dairwaith yn uwch nag yr oedd 15 mlynedd yn ôl. Mae gan Fwrdeistref Sirol Conwy'r ddeuddegfed gyfradd ansolfedd uchaf yng Nghymru.

Er bod y gyfradd ar gyfer methdaliadau wedi gostwng yn sylweddol 2016, roedd hyn yn bennaf oherwydd newidiadau mewn deddfwriaeth ar gyfer y categori ansolfedd hwn a gododd y lefel dyled isafswm o £750 i £5,000.

Tabl 6.5: achosion newydd o fethdaliad (cyfraddau fesul 10,000 o'r boblogaeth sy'n oedolion)

Ffynhonnell: the Insolvency service

	BS Conwy		Cymru	Cymru a Lloegr
	Nifer	Cyfradd	Cyfradd	Cyfradd
2017 cyfanswm	212	22.2	23.0	21.4
Methdaliad	36	3.8	3.4	3.3
Trefniant gwirfoddol unigol	107	11.2	13.3	12.8
Gorchymyn gostwng dyled	69	7.2	6.3	5.4
2016 cyfanswm (1 blwyddyn)	213	22.4	21.5	19.7
2012 cyfanswm (5 mlynedd)	289	30.9	26.5	24.5
2007 cyfanswm (10 mlynedd)	219	24.0	22.0	25.1
2002 cyfanswm (15 blynedd)	77	8.8	7.2	7.4

Siart 6.2: cyfraddau methdalu cymharol (fesul 10,000 o'r boblogaeth sy'n oedolion)
Ffynhonnell: the Insolvency service



Dechreuodd y gyfradd lawn o achosion unigol o fethdaliad ym Mwrdeistref Sirol Conwy godi yn 2004, cyn y dirywiad economaidd. Parhaodd y cyfraddau i gynyddu, gan gyrraedd penllanw o 38.9 yn 2009. O 2010 i 2015, dilynodd y cyfraddau tuedd araf ar i lawr, ond maent wedi dechrau codi eto yn y ddwy flynedd diwethaf. Er bod cyfraddau cyffredinol yn uwch ym Mwrdeistref Sirol Conwy, mae'r duedd yn dilyn y darlun cenedlaethol.

Gan edrych ar ffigurau cenedlaethol, yn 2016 roedd y gyfradd ansolfedd unigol yr uchaf yn y grŵp oedran 35-44, fel y bu am bob blwyddyn ers 2007. Roedd y gyfradd ansolfedd yn uwch ymhlith merched na dynion ym mhob grŵp oedran 18-54 oed, tra roedd gan ddynion gyfraddau ansolfedd uwch ar gyfer grwpiau oedran 55-64 a 65+. Er bod gan ferched gyfradd uwch yn gyffredinol yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf, yn hanesyddol mae dynion yn fwy tebygol o gael eu datgan yn ansolfedd. Roedd y newid yma'n cyd-fynd â gostyngiad yn nifer yr achosion o fethdaliadau (lle mae'r gyfradd o ansolfedd yn uwch ymysg dynion), a chyflwyno a thwf yn nifer y gorchmynion rhyddhad dyledion (lle mae'r gyfradd yn uwch ymysg merched).

Siart 6.3: cyfraddau methdalu fesul 10,000 o'r boblogaeth sy'n oedolion

Ffynhonnell: the Insolvency service



Diffiniadau

Methdaliad - math o broses ryddhau dyledion sydd ar gael i unrhyw un sy'n methu â thalu dyledion sy'n ddyledus ganddynt. Gwerthir unrhyw asedau y maent yn berchen arnynt a dosberthir yr enillion i gredydwyr.

Trefniant gwirfoddol unigol – modd gwirfoddol o ad-dalu'r hyn sy'n ddyledus ganddynt i gredydwyr yn llawn neu'n rhannol. Unwaith y bydd mwyafrif o'r credydwyr yn cymeradwyo hyn, bydd y trefniant yn rhwymol ar bob un ohonynt.

Gorchymyn gostwng dyled (DRO) - math o ryddhad ar ddyledion i rai sydd â £15,000 neu lai yn ddyledus i eraill ac ond ag ychydig o asedau neu incwm. Nid oes unrhyw ddosbarthu i gredydwyr, ac maent yn cael eu rhyddhau o'u dyledion 12 mis ar ôl y caniateir y DRO.

Atodiad 1 – crynodeb o'r data economaidd ar gyfer ardaloedd cymharol

Ffynonellau: ONS mid year population estimates; ONS business register and employment survey, (NOMIS)

	Bwrdeistref Sirol	Gogledd Orllewin Cymru	Gogledd Ddwyrain Cymru	Gogledd Cymru	Cymru	Prydain Fawr
Poblogaeth oedran gweithio (canol 2017)						
Pawb – oed 16-64	66,200	236,400	177,300	413,750	1,922,650	40,368,400
Fel % o'r holl poblogaeth	56.6%	58.3%	61.0%	59.4%	61.5%	62.9%
Cyflogaeth fesul diwydiant (2017)						
Cyfanswn swyddi	47,000	170,500	132,500	303,500	1,322,000	30,593,000
Amaethyddiaeth	5.3%	7.0%	2.5%	5.1%	4.2%	1.6%
Cynhyrchiad	3.5%	7.5%	25.1%	15.1%	12.1%	9.2%
Adeiladu	5.1%	5.3%	3.8%	4.6%	4.5%	4.9%
Gwasanaethau	86.0%	80.3%	68.7%	75.2%	79.2%	84.3%
Cyfanwerthu a manwerthu	13.2%	12.4%	11.7%	12.0%	12.0%	13.3%
Llety & gwasanaethau bwyd	13.9%	11.7%	5.7%	9.0%	7.6%	7.4%
Gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg a iechyd	33.2%	33.0%	24.1%	29.2%	31.0%	25.7%
Gwasanaethau eraill	25.8%	23.2%	27.2%	25.0%	28.6%	37.8%
Cyflogwyr	91.5%	90.6%	96.2%	92.9%	93.9%	96.6%
Gweithwyr amser llawn	57.4%	54.8%	65.7%	59.5%	60.9%	65.2%
Gweithwyr rhan amser	34.0%	35.8%	30.6%	33.4%	33.0%	31.4%
Perchnogion sy'n gweithio	8.5%	9.4%	3.8%	7.1%	6.1%	3.4%

* heblaw am gyfansymiau Cymru a PF, nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys amaethyddiaeth fferm (SIC isddosbarth 01000). Mae ffigurau cyflogaeth yn cynnwys cyflogwyr a pherchnogion sy'n gweithio.

Gogledd Orllewin Cymru = Ynys Môn, Gwynedd, BS Conwy, Sir Dinbych. Gogledd Ddwyrain Cymru = Sir y Fflint ac Wrecsam

Atodiad 1 – crynodeb o'r data economaidd ar gyfer ardaloedd cymharol (parhad)

Ffynonellau: ONS annual population survey, (NOMIS); ONS claimant count, (NOMIS)

	Bwrdeistref Sirol	Gogledd Orllewin Cymru	Gogledd Ddwyrain Cymru	Gogledd Cymru	Cymru	Prydain Fawr
Gweithgarwch economaidd (Hyd 2017- Med 2018)						
Cyfanswm poblogaeth 16-64	66,200	236,400	177,300	413,750	1,922,650	40,368,400
Economaidd weithredol	76.6%	77.4%	79.9%	78.5%	76.2%	78.5%
Mewn gwaith	74.1%	74.0%	77.0%	75.3%	72.6%	75.1%
Cyflogeion	63.1%	60.1%	68.3%	63.6%	62.5%	64.3%
Hunangyflogedig	10.5%	13.4%	8.5%	11.3%	9.5%	10.6%
Economaidd anweithredol	23.4%	22.6%	20.1%	21.5%	23.8%	21.5%
% anweithredol yn eisiau swydd	20.7%	22.4%	24.2%	23.2%	22.3%	21.4%
% anweithredol ddim yn eisiau swydd	79.3%	77.6%	75.8%	76.8%	77.7%	78.6%
Diweithdra (Chwe 2019)						
Cyfrif hawlwyr - nifer	2,060	6,260	4,875	11,135	52,415	1,039,010
Cyfrif hawlwyr - cyfradd	3.1	2.6	2.7	2.7	2.7	2.6
Cyfradd chwarter diwethaf (Tach 2018)	2.4	2.2	2.5	2.3	2.4	2.3
Cyfradd blwyddyn diwethaf (Chwe 2018)	2.2	2.2	2.1	2.1	2.2	2.1
Cyfradd 5 mlynedd yn ôl (Chwe 2014)	3.7	3.6	3.1	3.4	3.5	3.0
Rate 10 mlynedd yn ôl (Chwe 2009)	3.9	3.8	3.6	3.7	4.0	3.6
Dan 25 oed (% holl hawlwyr)	19.9%	20.4%	21.9%	21.1%	22.0%	18.8%
Oedran 50+	29.9%	28.8%	23.8%	26.6%	24.3%	26.3%
Cymwysterau - oedran 16-64 (2017)*						
Dim cymhwyster	5.9	7.5	8.5	7.9	8.7	7.7
NQF lefel 4 ac uwch	37.1	36.9	29.9	33.9	35.1	38.6

* Mae'r diffiniad a'r ffynhonnell data yn wahanol i'r hyn sydd yn y prif adroddiad.

Gogledd Orllewin Cymru = Ynys Môn, Gwynedd, BS Conwy, Sir Dinbych. Gogledd Ddwyrain Cymru = Sir y Fflint ac Wrecsam.

Atodiad 1 – crynodeb o'r data economaidd ar gyfer ardaloedd cymharol (parhad)

Ffynonellau: ONS interdepartmental business register

	Bwrdeistref Sirol	Gogledd Orllewin Cymru	Gogledd Ddwyrain Cymru	Gogledd Cymru	Cymru	Prydain Fawr
Strwythur busnes 2018						
Cyfanswm mentrau	4,410	15,875	9,305	25,180	103,530	2,596,320
Diwydiant						
Amaethyddiaeth	15.9%	19.8%	7.9%	15.4%	13.6%	5.0%
Cynhyrchiad	4.8%	5.4%	8.2%	6.4%	6.3%	5.6%
Adeiladu	11.3%	11.8%	13.2%	12.3%	12.6%	12.4%
Gwasanaethau	68.7%	63.2%	71.6%	66.3%	68.5%	76.9%
Cyfanwerthu a manwerthu	14.6%	14.1%	15.6%	14.6%	15.7%	14.2%
Llety a gwasanaethau bwyd	12.4%	11.5%	6.2%	9.5%	8.4%	5.7%
Gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg a iechyd	7.1%	6.6%	6.5%	6.5%	6.1%	6.0%
Gwasanethau eraill	34.6%	31.1%	43.4%	35.6%	38.4%	51.0%
Maint y mentrau busnes (nifer o weithwyr)						
0 - 4 gweithiwr	75.2%	75.8%	75.5%	75.7%	76.3%	78.0%
5 - 19 gweithiwr	19.7%	19.5%	18.9%	19.3%	18.8%	17.1%
20 - 99 gweithiwr	4.6%	4.3%	4.6%	4.4%	4.1%	4.0%
100 + gweithiwr	0.5%	0.5%	1.0%	0.7%	0.8%	0.9%
Trosiant blynyddol						
£0 - 49,000	18.9%	21.8%	17.5%	20.2%	19.6%	15.9%
£50,000 - £99,000	22.7%	21.9%	22.7%	22.2%	23.4%	23.4%
£100,000 - £249,000	32.9%	30.5%	30.9%	30.6%	30.3%	32.0%
£250,000 - £999,000	19.3%	19.4%	19.5%	19.4%	19.3%	19.5%
£1m +	6.2%	6.4%	9.4%	7.5%	7.5%	9.1%

Atodiad 1 – crynodeb o'r data economaidd ar gyfer ardaloedd cymharol (parhad)

Ffynonellau: ONS business demography; Land Registry price paid data; CACI PayCheck data; DWP benefit statistics, Stat-Xplore

	Bwrdeistref Sirol	Gogledd Orllewin Cymru	Gogledd Ddwyrain Cymru	Gogledd Cymru	Cymru	Prydain Fawr
Demograffeg busnes (2017)						
Cyfanswm mentrau gweithredol	4,120	14,145	9,615	23,760	102,890	2,864,990
fesul 10,000 y boblogaeth oed 16-64	622	598	542	574	535	710
Canran newid ers blwyddyn diwethaf	2.6%	1.1%	1.9%	1.4%	4.5%	3.2%
Cyfartaledd prisiau tai (2017)						
Canolrif prisiau tai blynyddol	£156,000	£152,750	£150,000	£151,500	£149,950	-
Pris tai chwartel isaf blynyddol	£120,000	£115,000	£116,000	£115,000	£105,000	-
Cymhareb incwm:prisiau tai (canolrif)	5.9	5.8	5.3	5.6	5.6	-
Cymhareb incwm:prisiau tai (chwartel isaf)	7.9	7.6	7.3	7.4	7.0	-
Incwm aelwydydd (2018)						
Incwm canolrif	£27,800	£27,150	£27,650	£27,350	£26,950	£31,450
Incwm chwarter isel	£16,150	£15,700	£15,500	£15,650	£15,250	£17,500
% o aelwydydd gydag incwm sy'n llai na 60% o ganolrif Prydain Fawr	31.5%	32.6%	32.7%	32.7%	33.6%	27.8%
Hawlwyr budd-daliadau (Aws 2018)*						
Cyfanswm preswylwyr oedran gweithio sy'n hawlio budd-daliadau gwladwriaethol	14,280	47,600	36,890	84,490	429,730	6,931,220
DLA a PIP - fel % y poblogaeth 16-64 oed**	7.4%	6.9%	6.5%	6.7%	7.5%	5.6%
Credyd Cynhwysol - fel % y poblogaeth 16-64 oed	2.1%	1.7%	5.3%	3.2%	2.7%	2.8%
Budd-daliadau Adran Gwaitha Phensiynau hyn* - fel % y poblogaeth 16-64 oed**	12.1%	11.6%	9.0%	10.5%	12.1%	8.8%

* Mae anghysondeb yn data budd-daliadau wrth i'r Credyd Cynhwysol gael ei gyflwyno a dechrau disodli systemau dyfarnu hŷn.
** Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) a Taliad Annibyniaeth Bersonol (PIP) *** Lwfans Ceisio Gwaith (JSA), Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA), Lwfans Gofalwr.

Gogledd Orllewin Cymru = Ynys Môn, Gwynedd, BS Conwy, Sir Dinbych. Gogledd Ddwyrain Cymru = Sir y Fflint ac Wrecsam

Atodiad 2 – crynodeb o'r data economaidd ar gyfer is-ardaloedd strategol

Ffynonellau: ONS mid year population estimates; ONS business register and employment survey, (NOMIS); ONS claimant count, (NOMIS)

	Gorllewin	Gogledd	Canolbarth	Dwyrain	De	Bwrdeistref Sirol
Poblogaeth oedran gweithio (canol 2017)						
Pawb – oed 16-64	16,400	11,600	18,650	12,050	7,500	66,200
Fel % o'r holl poblogaeth	57.8%	56.3%	56.7%	54.1%	58.9%	56.6%
Cyflogaeth fesul diwydiant (2017)*						
Cyfanswm swyddi	9,730	12,000	12,165	6,195	4,230	47,000
Amaethyddiaeth	0.2%	0.0%	0.2%	0.6%	1.5%	5.3%
Cynhyrchiad	3.9%	0.8%	1.7%	6.4%	4.5%	3.5%
Adeiladu	6.3%	2.8%	4.7%	10.3%	12.8%	5.1%
Gwasanaethau	89.7%	97.3%	93.4%	82.7%	81.2%	86.0%
Gweithwyr amser llawn	70.3%	54.2%	61.4%	61.2%	55.5%	57.4%
Gweithwyr rhan amser	27.5%	41.7%	36.9%	33.2%	30.6%	34.0%
Perchnogion sy'n gweithio	2.3%	4.2%	1.7%	5.6%	13.9%	8.5%
Diweithdra (Chwe 2019)						
Cyfrif hawlwyr - nifer	335	455	735	425	110	2,060
Cyfrif hawlwyr - cyfradd	2.0	3.9	3.9	3.4	1.5	3.1
Cyfradd chwarter diwethaf (Tach 2018)	1.5	2.9	3.1	2.9	1.2	2.4
Cyfradd blwyddyn diwethaf (Chwe 2018)	1.6	2.6	2.6	2.3	1.0	2.2
Cyfradd 5 mlynedd yn ôl (Chwe 2014)	3.0	4.6	4.2	3.5	1.9	3.7
Rate 10 mlynedd yn ôl (Chwe 2009)	3.5	4.6	4.6	4.0	2.4	3.9

* heblaw am gyfansymiau BS Conwy, nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys amaethyddiaeth fferm (SIC isddosbarth 01000). Mae ffigurau cyflogaeth yn cynnwys cyflogwyr a pherchnogion sy'n gweithio.

Atodiad 2 – crynodeb o'r data economaidd ar gyfer is-ardaloedd strategol (parhad)

Ffynonellau: cofrestr cyfraddau annomestig, CBSC; Land Registry price paid data; CACI PayCheck data; DWP benefit statistics, Stat-Xplore

	Gorllewin	Gogledd	Canolbarth	Dwyrain	De	Bwrdeistref Sirol
Eiddo gwag (Rhag 2018)						
Pob eiddo annomestig	1,068	1,294	1,451	796	975	5,584
Gwag	70	105	178	60	72	485
Fel % o'r holl eiddo	6.6%	8.1%	12.3%	7.5%	7.4%	8.7%
% yn wag y chwarter diwethaf (Maw 2017)	7.0%	8.0%	11.7%	8.2%	7.4%	8.7%
Cyfartaledd prisiau tai (2017)						
Canolrif prisiau tai blynyddol	£165,000	£156,000	£159,000	£145,000	£155,000	£156,000
Pris tai chwartel isaf blynyddol	£128,250	£116,375	£114,500	£117,750	£116,500	£120,000
Cymhareb incwm:prisiau tai (canolrif)	5.7	6.2	6.1	5.9	5.7	5.9
Cymhareb incwm:prisiau tai (chwartel isaf)	7.6	8.1	7.8	8.2	7.4	7.9
Incwm aelwydydd (2018)						
Incwm canolrif	£30,300	£26,250	£27,150	£26,550	£28,700	£27,800
Incwm chwarter isel	£17,900	£15,150	£15,600	£15,550	£16,800	£16,150
% o aelwydydd gydag incwm sy'n llai na 60% o ganolrif Prydain Fawr	27.1%	34.2%	32.9%	33.3%	29.8%	31.5%
Hawlwyr budd-daliadau (Aws 2018)*						
Cyfanswm preswylwyr oedran gweithio sy'n hawlio budd-daliadau gwladwriaethol	2,682	2,545	4,531	3,061	1,189	14,011
DLA a PIP - fel % y poblogaeth 16-64 oed**	6.1%	7.1%	8.1%	8.1%	7.7%	7.4%
Credyd Cynhwysol - fel % y poblogaeth 16-64 oed	0.9%	1.5%	1.6%	1.4%	1.4%	1.4%
Budd-daliadau Adran Gwaitha Phensiynau hyn* - fel % y poblogaeth 16-64 oed**	9.4%	13.3%	14.7%	15.9%	7.8%	12.6%

* Mae anghysondeb yn data budd-daliadau wrth i'r Credyd Cynhwysol gael ei gyflwyno a dechrau disodli systemau dyfarnu hŷn.
** Lwfans Ceisio Gwaith (JSA), Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA), Lwfans Gofalwr.

Atodiad 3.1 – ffigyrau hawlwyr diweithdra chwarterol ar gyfer wardiau (rhanbarthau etholiadol); yn ôl cyfraddau

Ffynhonnell: ONS Crown Copyright Reserved [from Nomis on 26 March 2019]

	Chwefror 2019		Tachwedd 2018		Awst 2018		Mai 2018	
Abergele Pensarn	110	8.2	105	7.7	90	6.6	85	6.2
Glyn	190	7.4	165	6.3	140	5.4	125	4.9
Tudno	175	5.8	130	4.3	100	3.4	115	3.8
Gogarth	95	4.7	70	3.3	65	3.1	70	3.3
Towyn	60	4.6	45	3.7	35	2.8	35	2.6
Llysfaen	75	4.3	60	3.4	45	2.6	45	2.5
Pant-yr-afon/Penmaenan	75	4.3	60	3.5	65	3.7	60	3.5
Mochdre	50	4.1	40	3.3	35	3.1	40	3.2
Mostyn	90	4.0	80	3.5	60	2.7	70	3.2
Colwyn	90	3.8	60	2.6	50	2.1	50	2.1
Pentre Mawr	70	3.8	60	3.2	45	2.4	45	2.4
Craig-y-Don	60	3.7	40	2.4	35	2.0	35	2.1
Bae Cinmel	125	3.6	95	2.7	75	2.2	65	1.8
Rhiw	135	3.6	105	2.9	85	2.3	100	2.7
Bwrdeistref Sirol Conwy	**2,060**	**3.1**	**1,610**	**2.4**	**1,350**	**2.0**	**1,395**	**2.1**
Llanddulas	30	3.1	10	1.2	10	1.0	10	1.3
Eirias	50	3.0	45	2.5	40	2.3	45	2.5
Llandrillo yn Rhos	105	2.8	90	2.4	75	2.0	75	2.0
Crwst	30	2.6	25	2.2	15	1.4	15	1.3
Pensarn	45	2.6	30	1.8	20	1.2	35	1.8
Bryn	30	2.5	15	1.4	15	1.2	20	1.5
Capelulo	15	2.2	15	1.8	10	1.2	10	1.2
Betws-y-Coed	15	2.1	10	1.1	0	-	5	0.4
Conwy	55	1.9	40	1.4	25	0.9	30	1.0
Trefriw	15	1.9	10	1.3	5	1.0	5	0.8
Caerhun	20	1.8	15	1.4	10	0.9	15	1.3
Gele	40	1.8	35	1.5	30	1.2	30	1.4
Betws yn Rhos	20	1.7	20	1.6	20	1.4	10	0.9
Pandy	20	1.7	15	1.3	20	1.9	25	2.1
Deganwy	35	1.5	25	0.9	25	0.9	30	1.1
Gower	10	1.4	10	1.4	10	1.2	5	1.0
Marl	40	1.4	35	1.3	40	1.4	35	1.3
Penrhyn	35	1.3	15	0.7	20	0.7	20	0.9
Uwch Conwy	10	1.2	5	0.8	5	0.7	10	0.9
Eglwysbach	10	1.1	10	0.9	5	0.8	5	0.6
Llansanffraid	10	0.9	10	0.7	10	0.8	10	0.7
Llansannan	10	0.8	10	0.9	10	0.6	10	0.7
Llangernyw	5	0.7	5	0.5	5	0.4	5	0.7
Uwchaled	5	0.7	5	0.6	5	0.3	5	0.6

Atodiad 3.2 – ffigyrau hawlwyr diweithdra blynyddol, efo cyfraddau, ar gyfer wardiau (rhanbarthau etholiadol); yn nhrefn yr wyddor

Ffynhonnell: ONS Crown Copyright Reserved [from Nomis on 27 June 2018]

	Chwefror 2019		Chwefror 2018		Chwefror 2014		Chwefror 2009	
Bwrdeistref Sirol Conwy	**2,060**	**3.1**	**1,435**	**2.2**	**2,460**	**3.7**	**2,630**	**3.9**
Abergele Pensarn	110	8.2	90	6.5	80	5.9	85	6.4
Bae Cinmel	125	3.6	75	2.2	150	4.2	138	3.9
Betws-y-Coed	15	2.1	5	1.0	10	1.6	22	2.7
Betws yn Rhos	20	1.7	10	0.9	25	1.8	37	2.7
Bryn	30	2.5	20	1.7	45	3.9	45	3.7
Caerhun	20	1.8	10	1.0	10	1.1	26	2.2
Capelulo	15	2.2	10	1.3	25	2.7	28	3.2
Colwyn	90	3.8	55	2.2	110	4.1	109	4.2
Conwy	55	1.9	35	1.2	75	3.1	96	3.7
Craig-y-Don	60	3.7	40	2.4	75	4.3	63	3.5
Crwst	30	2.6	20	1.8	30	2.7	32	3.2
Deganwy	35	1.5	30	1.2	45	2.3	74	3.8
Eglwysbach	10	1.1	5	0.7	10	0.8	11	1.2
Eirias	50	3.0	45	2.6	70	3.5	76	3.8
Gele	40	1.8	25	1.1	55	2.3	71	3.1
Glyn	190	7.4	150	5.8	220	7.7	235	9.3
Gogarth	95	4.7	70	3.5	130	5.8	129	6.1
Gower	10	1.4	10	1.2	25	2.9	29	4.1
Llandrillo yn Rhos	105	2.8	65	1.7	125	3.2	133	3.6
Llanddulas	30	3.1	15	1.4	25	2.6	28	2.9
Llangernyw	5	0.7	5	0.7	15	1.7	12	1.5
Llansanffraid	10	0.9	10	0.9	20	1.6	47	3.4
Llansannan	10	0.8	10	0.6	20	1.7	22	2.0
Llysfaen	75	4.3	50	2.8	90	5.2	88	5.0
Marl	40	1.4	35	1.2	55	2.3	49	2.3
Mochdre	50	4.1	30	2.4	60	5.0	61	5.6
Mostyn	90	4.0	60	2.7	125	5.4	141	6.7
Pandy	20	1.7	20	2.0	35	3.1	42	3.8
Pant-yr-afon/Penmaenan	75	4.3	70	4.3	90	4.9	69	4.4
Penrhyn	35	1.3	20	0.7	45	1.7	46	1.7
Pensarn	45	2.6	35	1.8	75	4.0	71	4.3
Pentre Mawr	70	3.8	45	2.6	60	3.3	93	4.9
Rhiw	135	3.6	95	2.6	145	3.7	137	3.7
Trefriw	15	1.9	10	1.3	25	3.3	31	3.9
Tudno	175	5.8	110	3.6	175	6.0	151	5.2
Tywyn	60	4.6	35	2.8	60	4.7	71	5.0
Uwch Conwy	10	1.2	10	1.2	15	1.7	20	2.0
Uwchaled	5	0.7	5	0.3	10	1.4	11	1.2